Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,**
**a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.cymru**
X: **@SeneddDiwyllCRh**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **7**

**Argymhellion** ........ **9**

**1. Cyflwyniad** ........ **10**

Y Bil ........ 10

Cylch gwaith ........ 10

Ein dull ni ........ 11

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd ........ 12

**2. Cefndir y Bil** ........ **13**

Rasio milgwn ledled y byd ........ 13

Rasio milgwn ym Mhrydain ........ 13

Rasio milgwn yng Nghymru ........ 14

Rheoleiddio rasio milgwn ym Mhrydain ........ 14

Rheoleiddio Statudol ........ 14

Hunanreoleiddio ........ 16

Cyllid ar gyfer rheoleiddio ........ 16

Esblygiad polisi yng Nghymru ........ 16

Cefnogaeth y cyhoedd ........ 17

Penderfyniad ........ 17

**3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth** ........ **19**

Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael ........ 19

Rhesymeg Llywodraeth Cymru ynghylch gwaharddiad ........ 19

Trosolwg o dystiolaeth ........ 20

Ystyriaethau moesegol ........ 20

Ystyriaethau o ran lles ........ 21

Ein barn ni ........ 25

**4. Tystiolaeth o broblemau lles anifeiliaid ... 27**

Blynyddoedd cynnar a bridio ... 27

Llety cŵn ... 28

Lles yn ystod rasio ... 29

Ymddeol ac ailgartrefu ... 32

Ansawdd y dystiolaeth ... 34

Ein barn ni ... 37

**5. Rheoleiddio rasys milgwn ... 38**

Effeithiolrwydd gwaith rheoleiddio ... 39

Y potensial ar gyfer rheoleiddio pellach yng Nghymru ... 40

Ein barn ni ... 41

**6. Dull datblygu polisi ... 43**

Ein barn ni ... 44

**7. Awydd y cyhoedd am rasio milgwn ... 46**

Ein barn ni ... 47

**8. Cefnogaeth y cyhoedd i'r Bil ... 48**

Ein barn ni ... 49

**9. Yr effaith economaidd a diwylliannol ... 51**

Ein barn ni ... 52

**10. Gweithredu ... 54**

Ein barn ni ... 55

**11. Diffiniad o "filgi" ... 56**

Ein barn ni ... 56

**12. Diffiniad o "rasio milgwn" ... 58**

Ein barn ni ... 59

**13. Canlyniadau anfwriadol ....... 60**

Rasio cŵn dros y ffin ....... 60

Gyrru rasio'n 'danddaearol' ....... 61

Ein barn ni ....... 62

**14. Y troseddau ....... 63**

Ein barn ni ....... 64

**15. Y gosb ....... 65**

Ein barn ni ....... 65

**16. Gorfodi ....... 67**

Ein barn ni ....... 68

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ....... 69**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ....... 71**

Gwybodaeth ychwanegol ....... 72

# Rhagair y Cadeirydd

Mae’n bleser gen i gyflwyno’r adroddiad hwn, sy’n nodi ystyriaeth y Pwyllgor o egwyddorion cyffredinol Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru). Cyflwynwyd y Bil gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2025 gyda’r nod o ddod â rasio milgwn i ben yng Nghymru, yn bennaf ar sail lles anifeiliaid.

Mae ein gwaith craffu wedi digwydd o fewn amserlen fyrrach nag arfer, o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu’r Bil hwn o fewn amserlen ddeddfwriaethol brysur fel rhan o gytundeb gwleidyddol. Yn ddiamau, mae’r penderfyniad hwn wedi gwneud ein tasg fel pwyllgor yn heriol. Bu’n rhaid i ni ymdopi â thystiolaeth anghyflawn a dadleuol iawn o ddwy ochr y ddadl, heb yr amser y byddem wedi ei ddymuno ei gael i’w harchwilio. Mae’r profiad hwn wedi tanlinellu pwysigrwydd sylfeini polisi cryf a datblygedig cyn cyflwyno deddfwriaeth.

O’r cychwyn cyntaf, mae’r Pwyllgor wedi bod yn ymwybodol iawn bod safbwyntiau cryf ar y mater hwn, a bod y farn yn aml yn rhanedig. Rydym wedi ceisio ystyried pob safbwynt yn ofalus ac yn wrthrychol. Mynegodd rhai rhanddeiliaid amheuon ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth, gan gwestiynu a allai rheoleiddio gwell ddarparu dewis arall, ac yn wir cododd rhai bryderon ynghylch effeithiau economaidd a chanlyniadau anfwriadol gwaharddiad. Tynnodd eraill sylw at lefel sylweddol o gefnogaeth gyhoeddus i waharddiad. Mae llawer o dystion, ynghyd â nifer o Aelodau’r Pwyllgor, o’r farn bod gwaharddiad yn gam angenrheidiol a phwysig tuag at ddiogelu lles milgwn rasio, gan nodi pryderon ynghylch lefel yr anafiadau a’r marwolaethau ar y trac. Ni allai unrhyw faint o reoleiddio fyth gael gwared ar y risg gynhenid i filgwn yn y gamp hon. O’r herwydd, cred nifer o’r Aelodau fod gwaharddiad yn angenrheidiol.

Wrth wraidd ein trafodaethau, er hynny, roedd dealltwriaeth gyffredin, beth bynnag fo’r gwahaniaethau barn ar y Bil, fod yn rhaid i les y cŵn barhau i fod yn flaenoriaeth. Er hyn, rydym yn cydnabod pryderon y rhai y gallai eu bywoliaeth gael ei heffeithio pe bai’r Bil yn cael ei basio. Mae’r canlyniadau posibl i’r rhai sy’n gweithio yn unig drac masnachol Cymru yn haeddu ystyriaeth ofalus.

Mae ein gwaith craffu hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith mai dim ond rhan o ddarlun llawer ehangach y mae ffocws cul y Bil hwn yn mynd i’r afael ag ef. Er bod y gwaharddiad arfaethedig yn ceisio atal niwed i filgwn ar y trac rasio, mae tystiolaeth yn awgrymu bod pryderon lles yn ymestyn ar draws oes milgi rasio, gan gynnwys ar gamau mewnforio, bridio, cadw cŵn mewn llety cŵn, ac ailgartrefu.

Bydd angen rhoi mwy o sylw i'r materion hyn er mwyn cyflawni gwelliannau ystyrlon o ran lles.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd dystiolaeth a rhannu eu safbwyntiau gyda'n Pwyllgor, boed o blaid neu yn erbyn y Bil. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein helpu ni i ddeall yr amrywiaeth o safbwyntiau ar y pwnc hwn, ynghyd â goblygiadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn cynorthwyo Aelodau i ddod i benderfyniad gwybodus ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull cynhwysfawr, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o gynigion deddfwriaethol yn y dyfodol.



**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad cynhwysfawr o oblygiadau economaidd a chymdeithasol y Bil cyn iddo ddod i rym.......... Tudalen 53

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu anghenion y gweithwyr yr effeithir arnynt yn llawn o ganlyniad i'r Bil ac yn rhoi cymorth wedi ei dargedu ar waith i liniaru caledi cyn iddo ddod i rym. .......... Tudalen 53

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y posibilrwydd y bydd gweithgarwch rasio yn cael ei ddadleoli ar draws ffiniau, ac yn ymgysylltu â Thrwyddedu Anifeiliaid Cymru yn ôl yr angen i asesu a lliniaru effeithiau posibl ar les.......... Tudalen 62

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Cyngor Dedfrydu cyn i'r Bil ddod i rym i ddatblygu canllawiau dedfrydu clir. .......... Tudalen 66

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyflwyno gwelliant i'r Bil i alluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol i arolygwyr mewn perthynas â gorfodi'r troseddau sydd yn y Bil.......... Tudalen 68

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cytundebau cenedlaethol i gynorthwyo ymchwiliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio rhwng asiantaethau gorfodi a'r Heddlu.......... Tudalen 68

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad manwl o gapasiti gorfodi, gan gynnwys anghenion hyfforddi, ac yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol fynediad at ddigon o gyllid a chymorth i weithredu'r ddeddfwriaeth.......... Tudalen 68

# 1. Cyflwyniad

## Y Bil

**1.** Cyflwynodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("Ysgrifennydd y Cabinet"), Fil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ("y Bil") Llywodraeth Cymru ar 29 Medi 2025.[1] Ar yr un diwrnod, gosododd Femorandwm Esboniadol cysylltiedig ("y Memorandwm Esboniadol") yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol,[2] a chyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig.[3] Ar 30 Medi 2025, gwnaeth ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn.[4]

**2.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil atom ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 5 Rhagfyr 2025.

## Cylch gwaith

**3.** Ar 25 Medi 2025, fe wnaethom gytuno i ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil, sef gwahardd rasio milgwn yng Nghymru.
- Y termau a ddefnyddir yn y Bil, p'un a ydynt wedi eu diffinio ai peidio. Yn benodol, a yw'r darpariaethau yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?
- Unrhyw rwystr posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt.
- A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
- Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

---

[1] Mae gwybodaeth am y Bil a'i daith drwy'r Senedd ar gael ar dudalen we'r Bil
[2] Llywodraeth Cymru, Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, 29 Medi 2025
[3] Llywodraeth Cymru, Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Datganiad ysgrifenedig, 29 Medi 2025
[4] Y Cyfarfod Llawn: Cofnod y Trafodion - 30 Medi 2025, paragraffau 119-126

- Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

## Ein dull ni

**4.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.10, ein rôl ni yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo i gyfnodau nesaf y broses ddeddfwriaethol.

**5.** Ar 29 Medi 2025, cawsom sesiwn friffio dechnegol breifat ar y Bil gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Rydym yn ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet am hwyluso hyn.

**6.** Ar 30 Medi 2025, fe wnaethom gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig. Er mwyn sicrhau y gallai'r dystiolaeth a fyddai'n dod i law lywio ein sesiynau tystiolaeth lafar, y dyddiad cau oedd 17 Hydref 2025. Cafwyd 29 ymateb.[5]

**7.** Rhwng 2 Hydref a 6 Tachwedd 2025, fe wnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar y Bil a rhanddeiliaid allweddol.[6] Mae rhestr o dystion ar gael yn Atodiad A. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn Atodiad B.

**8.** Hwylusodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd arolwg ar-lein, a rannwyd yn gyhoeddus rhwng 2 a 19 Hydref 2025. Bwriad yr arolwg oedd ategu'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig, drwy roi cyfle hygyrch i'r cyhoedd gyfrannu barn ar y Bil, rasio milgwn fel camp, a materion cysylltiedig fel lles anifeiliaid.

[5] Gellir darllen yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law yn llawn ar dudalen we'r Bil.
[6] Mae manylion y sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys dolenni i'r trawsgrifiadau a darllediadau Senedd.tv, ar gael ar dudalen we'r Bil.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd drwy'r arolwg ar 3 Tachwedd 2025.[7]

**9.** Rydym wedi bod yn gohebu ac wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig atodol gan amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol.[8]

**10.** Yn ogystal â gweithgareddau rheolaidd y Pwyllgor, ymwelodd Aelod â Stadiwm Milgwn y Dyffryn yn Ystrad Mynach yn ystod diwrnod rasio, gan roi cyfle i arsylwi gweithrediadau'r stadiwm mewn sefyllfa fyw, a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r arferion a'r amodau sy'n gysylltiedig â rasio milgwn. Mae'r mewnwelediadau a gasglwyd o'r ymweliad hwn wedi llywio ystyriaeth a thrafodaethau parhaus y Pwyllgor ar y Bil.

**11.** Rydym yn cydnabod bod safbwyntiau cryf ar y Bil, a'u bod yn aml yn rhanedig. Rydym yn ddiolchgar i bawb a rannodd eu profiadau, eu tystiolaeth a'u harbenigedd gyda ni. Drwy gydol ein gwaith craffu, rydym wedi ceisio ystyried pob safbwynt yn ofalus ac yn wrthrychol. Er ein bod ni'n cydnabod na fydd pob cyfrannwr yn cytuno â'n casgliadau, rydym yn eu sicrhau bod pob cyfraniad wedi llywio ein trafodaethau ac wedi llunio'r adroddiad hwn.

## Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

**12.** Yn unol â'u harfer, bu'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn craffu ar y Bil o ran priod feysydd eu diddordeb. Mae gwybodaeth am eu gwaith, a'u hadroddiadau, i'w gweld ar dudalen y Bil ar y we.[9]

---

[7] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - Tachwedd 2025
[8] Mae'r holl ohebiaeth ar gael ar dudalen we'r Bil.
[9] Mae'r holl wybodaeth am eu gwaith ar gael ar dudalen we'r Bil.

# 2. Cefndir y Bil

## Rasio milgwn ledled y byd

**13.** Mae Cymru ymysg nifer fechan o wledydd yn y byd lle mae rasio milgwn masnachol yn parhau i weithredu. Mae'r gwaharddiad arfaethedig yng Nghymru yn adlewyrchu tuedd ryngwladol ehangach i ddiddymu'n raddol rhywbeth sy'n gamp ymylol erbyn hyn. Er bod rasio milgwn yn dal i ddigwydd mewn deg gwlad, mae wedi dod i ben neu'n cael ei ddiddymu'n raddol yn y rhan fwyaf, gyda thraciau masnachol gweithredol bellach wedi eu cyfyngu i Awstralia, Iwerddon, Seland Newydd, Unol Daleithiau America a'r Deyrnas Unedig.[10] Mae Seland Newydd wedi cyhoeddi cynlluniau i gau'r diwydiant rasio milgwn erbyn Gorffennaf 2026, gan nodi pryderon parhaus ynghylch lles er gwaethaf diwygiadau rheoleiddio. Mae sawl talaith yn Awstralia hefyd wedi adolygu'r gamp, gyda Thiriogaeth Prifddinas Awstralia yn gwahardd rasio milgwn yn 2018.

## Rasio milgwn ym Mhrydain

**14.** Yn yr Alban, cyflwynwyd y Bil Rasio Milgwn (Troseddau) (Yr Alban) ym mis Ebrill 2025 yn dilyn adolygiad a gomisiynwyd gan Bwyllgor Materion Gwledig, Ynysoedd ac Amgylchedd Naturiol Senedd yr Alban ar y pryd fel rhan o'i waith yn ystyried deiseb yn galw am waharddiad. Os caiff ei basio, gallai'r Alban ymuno â Chymru drwy roi terfyn ar yr arfer, gan adael Lloegr fel yr unig genedl ym Mhrydain heb waharddiad.

**15.** Caiff rasio milgwn ym Mhrydain ei weithredu'n fasnachol yn bennaf o dan nawdd Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB). Mae GBGB yn trwyddedu 19 stadiwm, 18 yn Lloegr ac un yng Nghymru. Cafodd yr unig stadiwm a reoleiddiwyd gan GBGB yn yr Alban ei gau yn 2020.

**16.** Yn hanesyddol, roedd rasio hefyd yn digwydd ar "draciau fflapio" anffurfiol y tu allan i oruchwyliaeth reoleiddio GBGB, ond mae'r rhain wedi diflannu'n llwyr, bron. Yn dilyn achosion mwy diweddar o gau yng Nghymru a Lloegr, Stadiwm Thornton yn yr Alban yw'r trac fflapio olaf sydd ar ôl ym Mhrydain, er bod ei wefan yn cadarnhau nad oes rasys milgwn yn digwydd yno ar hyn o bryd.[11]

---

[10] Grey 2K USA Worldwide. *Greyhound racing around the world*. Ar gael yn https://www.grey2kusa.org (Cyrchwyd: 11 Tachwedd 2025)
[11] Stadiwm Milgwn Thorton. Ar gael yn https://thorntondogs.wixsite.com (Cyrchwyd: 11 Tachwedd 2025)

### Rasio milgwn yng Nghymru

**17.** Mae rasio milgwn wedi digwydd yng Nghymru ers tua chanrif,[12] ond dim ond un trac sy'n parhau i fod yn weithredol: Stadiwm Milgwn Valley yn Ystrad Mynach. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, agorodd Stadiwm y Dyffryn ym 1976, gan weithredu'n hanesyddol fel trac fflapio gydag un diwrnod o rasio yr wythnos. Yn dilyn ei gaffael yn 2021, cafodd Stadiwm Milgwn Valley ei ailddatblygu i fodloni safonau trwyddedu GBGB, gan ddod yn drwyddedig gan GBGB ym mis Awst 2023, gyda rasio proffesiynol yn dechrau ym mis Tachwedd 2023. Mae Stadiwm Milgwn Valley bellach yn cynnal tri chyfarfod rasio yr wythnos, pob un yn cynnwys 11 i 12 ras gyda hyd at chwe milgi fesul ras. Ar hyn o bryd mae 10 hyfforddwr trwyddedig GBGB wedi eu lleoli yng Nghymru, yn bennaf yn rasio yn Stadiwm Milgwn Valley, ochr yn ochr â dau hyfforddwr o'r tu allan i Gymru, gyda 265 o filgwn yn gymwys i rasio yn ôl y sôn. Nid yw ffigurau presenoldeb y Stadiwm yn hysbys,[13] ond caiff y rasys eu ffrydio'n fyw, ac yn 2019 dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod rasio milgwn yn safle rhif chwech ar y rhestr o gampau sy'n denu'r nifer uchaf o wylwyr ym Mhrydain.[14]

## Rheoleiddio rasio milgwn ym Mhrydain

### Rheoleiddio Statudol

**18.** Nid oes deddfwriaeth yng Nghymru sy'n llywodraethu lles milgwn rasio yn benodol; mae eu lles yn cael sylw dan gyfraith lles anifeiliaid gyffredinol. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006") yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, ac yn rhoi'r modd i gymryd camau pan fo tystiolaeth ar gael yn ymwneud â chreulondeb tuag at anifail neu fethiant i ddarparu ar gyfer anghenion lles anifail. Mae Deddf 2006 hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau trwyddedu a chanllawiau statudol. Gan ddefnyddio'r pwerau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn,[15] sy'n darparu canllawiau cyffredinol sy'n berthnasol i bob ci yn hytrach na darpariaethau penodol ar gyfer rasio milgwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ardystio cod

[12] Y Pwyllgor Deisebau: Cofnod y Trafodion - 13 Mehefin 2022 - paragraff 159
[13] Llywodraeth Cymru: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol - 29 Medi 2025, paragraff 3.5-3.6
[14] Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Datganiad i'r wasg, Greyhound welfare boosted through multi-million pound deal with gambling industry, 10 Ionawr 2019
[15] Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer er Lles Cŵn, 2018

ymarfer gwirfoddol er lles milgwn rasio a luniwyd gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru.[16]

**19.** Mae deddfwriaeth ychwanegol sy'n berthnasol i les milgwn yn cynnwys:

- Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007, sy'n ei gwneud yn drosedd cludo anifeiliaid mewn ffordd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, anaf neu ddioddefaint diangen;
- Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ci gael microsglodyn; a
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, sy'n darparu ar gyfer trwyddedu'r rhai sy'n bridio cŵn yng Nghymru.

**20.** Mae'r sefyllfa yn yr Alban yn debyg, gyda lles milgwn rasio yn dod o dan ddeddfwriaeth gyffredinol lles anifeiliaid.

**21.** Mae deddfwriaeth ychwanegol yn gymwys yn Lloegr drwy Reoliadau Lles Milgwn Rasio 2010 (Rheoliadau 2010), a wnaed o dan adran 13 o Ddeddf 2006. Mae Rheoliadau 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr traciau rasio milgwn gael trwydded gan eu hawdurdod lleol, oni bai eu bod yn cael eu rheoleiddio gan gorff achrededig Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig ("UKAS") (neu gyfwerth yn yr Undeb Ewropeaidd) ac yn bodloni'r amodau a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau 2010.

**22.** Adroddodd adolygiad ôl-weithredu o effeithiolrwydd Rheoliadau 2010 yn 2016 eu bod wedi bod yn llwyddiannus o ran sefydlu safonau lles gofynnol mewn traciau rasio yn Lloegr. Nododd hefyd feysydd ar gyfer gweithredu pellach y tu hwnt i gwmpas Rheoliadau 2010, gan gynnwys mynd i'r afael â safonau mewn llety cŵn hyfforddwyr a mynd i'r afael â materion tryloywder ynghylch cyfraddau anafiadau ac ymddeol. Nododd yr adolygiad gamau gweithredu ar gyfer GBGB yn ymwneud â chyhoeddi data a monitro cydymffurfiaeth yn annibynnol.[17] Dechreuodd GBGB gyhoeddi data anafiadau ac ymddeoliadau ar lefel genedlaethol yn 2018, ac erbyn hyn mae'n cael ei achredu gan UKAS.[18]

---

[16] Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, Cod Ymarfer Gwirfoddol: Lles Milgwn Rasio (Cymru), Awst 2019

[17] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Papur polisi, Welfare of racing greyhounds: post implementation review of 2010 Welfare of Racing Greyhounds Regulations, 15 Medi 2016

[18] Corff a benodir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i asesu ac achredu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau.

### Hunanreoleiddio

**23.** Mae GBGB yn rheoleiddio rasio milgwn trwyddedig ym Mhrydain o dan system hunanreoleiddio sydd wedi ei hachredu gan UKAS. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn monitro data am anafiadau a gyhoeddir gan GBGB i weld a oes tueddiadau. Mae GBGB yn trwyddedu meysydd rasio, hyfforddwyr, staff llety cŵn, a llawfeddygon milfeddygol, gan ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â'i Reolau Rasio, y mae GBGB yn dweud eu bod yn adlewyrchu adran 9 o Ddeddf 2006 a'r chwe amod sy'n ffurfio Rheoliadau 2010.[19]

**24.** Mae Ymrwymiad Milgwn GBGB yn cynnwys cynlluniau ar gyfer ymddeol ac adferiad ar ôl anaf, archwiliadau llety cŵn, a mesurau uniondeb. Yn 2022, lansiodd GBGB ei strategaeth lles pum mlynedd, *A Good Life for Every Greyhound* ("y Strategaeth Lles"), gyda'r nod o wella lles drwy gydol oes milgi.[20] Cyhoeddwyd dau adroddiad cynnydd yn 2024.[21]

### Cyllid ar gyfer rheoleiddio

**25.** Mae rheoleiddio yn cael ei gyllido drwy ffioedd trwyddedu GBGB a chyfraniadau gwirfoddol gan y diwydiant betio drwy Gronfa Rasio Milgwn Prydain. Mae'r Gronfa yn casglu ardoll wirfoddol gan fwcis, sydd wedi ei gosod ar hyn o bryd ar 0.6 y cant o drosiant ar rasio milgwn trwyddedig, ac yn dyrannu arian drwy grantiau ar gyfer lles, rheoleiddio, a dibenion eraill y diwydiant. Argymhellwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Senedd y Deyrnas Unedig yn 2016 y dylid cael ardoll statudol pe bai trefniadau gwirfoddol yn annigonol. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymrwymiad gwirfoddol gwerth tua £3 miliwn y flwyddyn. Nodwyd yn Strategaeth Lles GBGB fod cyllid hirdymor gan y diwydiant betio yn hanfodol. Ym mis Ionawr 2025, lansiodd GBGB ddeiseb yn galw am ardoll statudol; mae ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr arfaeth.

## Esblygiad polisi yng Nghymru

**26.** Ni chyfeiriodd Rhaglen Lywodraethu 2021 Llywodraeth Cymru at wahardd rasio milgwn, ond ymrwymodd i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid. Roedd Cynllun Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru ar

[19] Bwrdd Milgwn Prydain Fawr: Rules of Racing – 13 Medi 2024
[20] Bwrdd Milgwn Prydain Fawr: A Good Life for Every Greyhound - 2022
[21] Bwrdd Milgwn Prydain Fawr: Delivering 'A Good Life for Every Greyhound' – Chwefror 2024, Bwrdd Milgwn Prydain Fawr Delivering 'A Good Life for Every Greyhound' – Rhagfyr 2024

gyfer Cymru 2021–2026, sy'n nodi gweledigaeth i bob anifail gael bywyd da a chael ei amddiffyn rhag niwed, yn cynnwys cynlluniau i ymgynghori ar drwyddedu gweithgareddau anifeiliaid, gan gynnwys rasio milgwn o bosibl.

## Cefnogaeth y cyhoedd

### Deisebau'r Senedd

**27.** Cyflwynwyd deiseb yn galw am wahardd rasio milgwn yng Nghymru i'r Senedd yn 2021 a chafwyd 35,101 o lofnodion. Ystyriwyd y ddeiseb gan y Pwyllgor Deisebau yn ei adroddiad, 'Y Troad Terfynol?', a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth 2023. Argymhellodd yr adroddiad waharddiad graddol ochr yn ochr â mesurau ehangach i wella lles milgwn.[22] Casglodd gwrth-ddeiseb yn cefnogi parhad rasio milgwn dros 10,000 o lofnodion. Caewyd y ddwy ddeiseb gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Mawrth 2025, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am ei bwriad i ddeddfu.

### Ymgynghoriad y Senedd

**28.** Yn ogystal, gofynnodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Drwyddedu Sefydliadau, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Lles Anifeiliaid (Rhagfyr 2023–Mawrth 2024) ("ymgynghoriad 2023") am farn ar rasio milgwn. O'r 1,031 o ymatebion i'r cwestiwn ar waharddiad graddol, roedd 64.7 y cant yn cefnogi gwaharddiad, gyda 25.1 y cant yn gwrthwynebu a 10.2 y cant heb benderfynu.

## Penderfyniad

**29.** Ym mis Chwefror 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddeddfu i wahardd rasio milgwn yng Nghymru.[23] Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddwyd Cytundeb Cyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26 (Cytundeb Cyllideb Derfynol 2025-26) a oedd yn cynnwys "cam i wahardd rasio milgwn yng Nghymru."[24]. Daeth y penderfyniad cyn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar Drwyddedu Sefydliadau, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd

---

[22] Y Pwyllgor Deisebau: Y Troad Terfynol? P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru – Rhagfyr 2022
[23] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: Cymru'n symud i wahardd rasio milgwn – 18 Chwefror 2025
[24] Llywodraeth Cymru, Cytundeb cyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26 – Mawrth 2025

Lles Anifeiliaid ym mis Mehefin 2025, ac ni ddaeth Papur Gwyn nac ymgynghoriad pellach i ganlyn hynny.[25]

[25] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 'Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid, gan gynnwys rasio milgwn' a'n camau nesaf – 24 Mehefin 2025

# 3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

## Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

**30.** Amcan polisi'r Bil yw gwahardd rasio milgwn yng Nghymru.

**31.** Mae Bil yn ei gwneud yn drosedd gweithredu stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru a'i ddefnyddio, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fod yn rhan o drefnu rasio milgwn yng Nghymru. Diffinnir "rasio milgwn" fel gosod milgwn i redeg o gwmpas trac ar drywydd llith sy'n cael ei reoli'n fecanyddol, ac mae'n cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o gwmpas trac.

## Rhesymeg Llywodraeth Cymru ynghylch gwaharddiad

**32.** Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y gwaharddiad, sy'n seiliedig ar les anifeiliaid a rhesymau moesegol, fel a ganlyn:

> *"Mae cefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid a'r cyhoedd i wahardd rasio milgwn, wedi'i sbarduno gan bryderon am les anifeiliaid. Mae llawer yn credu bod angen dod â'r arfer i ben er mwyn amddiffyn milgwn rhag niwed, ecsbloetio a masnachu. Mae pryderon lles a godwyd gan randdeiliaid yn cynnwys y gyfradd anafiadau a marwolaethau, ewthanasia, gorfridio a darpariaethau annigonol ar gyfer gofal ar ôl rasio ac ymddeol.*
>
> *Y tu hwnt i'r materion lles, mae dadl foesol hefyd yn cael ei chyflwyno dros waharddiad, sy'n adlewyrchu gwerthoedd esblygol cymdeithas ynghylch trin anifeiliaid yn foesegol a'r ffaith bod y drwydded gymdeithasol ar gyfer diwydiannau yr ystyrir eu bod yn dibynnu ar ddioddefaint anifeiliaid ar gyfer adloniant yn dirywio. O ganlyniad i hyn, ystyrir ei bod yn fwyfwy anodd cyfiawnhau gwneud milgwn yn agored i niwed drwy rasio."*[26]

[26] Llywodraeth Cymru, Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, 29 Medi 2025

**33.** Nododd Llywodraeth Cymru hefyd fod cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol gref i wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith bod dadleuon yn y Senedd wedi dangos cefnogaeth drawsbleidiol glir, er nad yn unfrydol, i symud tuag at waharddiad. Nododd fod y consensws hwn, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy ddeisebau ac ymatebion i ymgynghoriadau, yn darparu mandad cadarn ar gyfer camau deddfwriaethol.[27]

## Trosolwg o dystiolaeth

**34.** Roedd gwahaniaeth barn ynghylch yr angen am y Bil, gan adlewyrchu tensiynau ehangach rhwng blaenoriaethau lles anifeiliaid a buddiannau'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant rasio milgwn.

**35.** Dadleuodd y rhai a oedd yn eiriol dros y Bil fod rasio milgwn yn 'beryglus yn ei hanfod' ac na ellir ei wneud yn ddiogel drwy reoleiddio.[28] O'r safbwynt hwn, ystyriwyd bod gwaharddiad yn gam angenrheidiol i alinio deddfwriaeth â gwerthoedd cyfoes. Pwysleisiodd cefnogwyr y byddai diwygiadau cynyddrannol yn methu mynd i'r afael â'r risgiau sylfaenol a achosir gan y gamp, gan alw ar Lywodraeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth foesegol.

**36.** Cwestiynodd gwrthwynebwyr y Bil a oedd gwaharddiad llwyr ar rasio milgwn yn gyfiawn neu'n gymesur. Tynnodd y safbwyntiau hyn sylw at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol posibl gwaharddiad, y cynnydd a wnaed yn barod o ran gwella safonau lles, a'r gred bod rheoleiddio yn cynnig dull mwy cytbwys ac effeithiol. Rhybuddiodd gwrthwynebwyr hefyd am ganlyniadau anfwriadol, fel rasio heb ei reoleiddio, a phwysleisiwyd arwyddocâd diwylliannol y gamp i rai cymunedau.

### Ystyriaethau moesegol

**37.** Mynegodd llawer o ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r Bil wrthwynebiadau moesol cryf i rasio milgwn, gan ei ystyried yn annerbyniol defnyddio anifeiliaid at ddiben adloniant neu elw ariannol. Disgrifiodd y sylwadau'r arfer fel un 'annynol', 'yn seiliedig ar greulondeb tuag at anifeiliaid', ac yn anghydnaws â 'chymdeithas waraidd'.[29] I rai, gwelwyd y Bil fel cyfle i Gymru ddangos arweinyddiaeth foesegol a

[27] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 2 Hydref 2025, paragraffau 15 a 55, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 6 Tachwedd 2025, paragraffau 35 a 39
[28] Er enghraifft, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 6 Tachwedd 2025, paragraff 11
[29] PGRWB 12 - Manuela Vogler

'bod ar ochr gywir hanes,' gan osod y genedl fel arweinydd o ran tosturi a lles anifeiliaid.[30]

**38.** Roedd dadleuon yn seiliedig ar hawliau hefyd yn amlwg, gyda chyfranwyr yn honni bod gan anifeiliaid hawl sylfaenol i fywyd a rhyddid rhag dioddefaint, na ddylid ei beryglu er budd diwylliannol nac economaidd. Esboniodd Dr Rebekah Humphreys, o'r safbwynt hwn, na ellir cyfiawnhau rasio milgwn o dan unrhyw amgylchiadau.[31]

**39.** Dadleuodd llawer o wrthwynebwyr nad oedd yr achos dros waharddiad ar sail foesegol wedi ei wneud. Cwestiynodd yr Athro Madeleine Campbell yr honiad bod defnyddio anifeiliaid ar gyfer chwaraeon yn unigryw o anfoesegol, gan nodi bod defnyddiau cyffredin eraill, fel ar gyfer bwyd neu gwmni, hefyd yn darparu buddion diangen ac yn amlygu anifeiliaid i niwed.[32]

**40.** Rhybuddiodd Cynghrair Cefn Gwlad Cymru y gallai'r rhesymeg foesegol y tu ôl i'r Bil ymestyn yn rhesymegol i weithgareddau eraill, fel rasio ceffylau, ac awgrymodd fod y cynnig yn adlewyrchu safbwynt ideolegol yn hytrach na ffocws ar les anifeiliaid.[33]

**41.** Mabwysiadodd eraill ddull mwy pragmatig, gan bwyso a mesur niwed yn erbyn buddiannau. Dadleuodd GBGB y byddai gwaharddiad yn 'ymyrraeth anghymesur' â hawliau'r rhai sy'n gweithio yn y gamp.[34]

## Ystyriaethau o ran lles

**42.** Dadleuodd cefnogwyr y Bil, hyd yn oed o dan amodau trwyddedig, fod anafiadau a marwolaethau yn parhau, gan awgrymu bod niwed yn gynhenid i'r gamp. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"What we know from the evidence is we still have a large and concerning number both of fatalities and of injuries on licensed*

[30] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 2 Hydref 2025, paragraff 89
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Rebekah Humphreys – 3 Hydref, tudalen 2
[32] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 184
[33] PGRWB 02 – Cynghrair Cefn Gwlad Cymru, tudalen 1
[34] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 391

> *greyhound tracks…regardless of improvements, the fatalities continue."*[35]

**43.** Fe wnaeth y Glymblaid 'Cut the Chase' ("y Glymblaid"), grŵp o elusennau lles anifeiliaid sy'n galw am roi terfyn ar rasio milgwn yng Nghymru, dynnu sylw at faint yr anafiadau a'r marwolaethau:

> "GBGB's own figures show that over 4,000 greyhounds died and over 35,000 injuries were recorded as a result of licensed greyhound racing between 2018 and 2024."[36]

**44.** Mynegodd ymatebwyr i'r arolwg a'r ymgynghoriad farn gref ar y mater, gydag un yn dweud:

> *"The sheer number of dogs who are injured or put to sleep through the racing industry is disgusting."*[37]

**45.** Esboniodd RSPCA Cymru, er gwaethaf blynyddoedd o weithio gyda'r diwydiant i wella safonau lles, fod adolygiad mewnol yn 2022 na chyhoeddwyd wedi dod i'r casgliad bod 'peryglon cynhenid' ynghlwm wrth rasio a heriau lles 'sylweddol' drwy gydol oes milgi. O ganlyniad, roedd ei bolisi wedi newid o eiriol dros reoleiddio gwell i gefnogi gwaharddiad.[38]

**46.** I lawer, anallu rheoleiddio i atal anafiadau a marwolaethau oedd y prif reswm dros gefnogi gwaharddiad. Dywedodd Hope Rescue wrthym:

> *"… we can talk about breeding, we can talk about kennels, we can talk about transparency, but ultimately, it's about the number of dogs that are being injured and killed every single year as a consequence of racing."*[39]

---

[35] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 2 Hydref 2025, paragraff 15
[36] PGRWB 11 – Clymblaid 'Cut the Chase', tudalen 2
[37] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Tachwedd 2025, tudalen 8
[38] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 15 Hydref 2025, paragraff 15
[39] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2025, paragraff 121

**47.** Yn yr un modd, dywedodd yr Ymddiriedolaeth Cŵn:

> *"… the key point is that no amount of regulation could possibly make an inherently dangerous activity safe enough to safeguard the welfare of these animals."*[40]

**48.** Pwysleisiodd llawer o dystion fod pryderon lles yn ymestyn y tu hwnt i rasio i gylch bywyd cyfan milgwn, gan gynnwys bridio, cadw cŵn mewn llety cŵn, a gofal ar ôl ymddeol. Disgrifiodd y Glymblaid 'lu' o faterion yn ymwneud â lles, gan gynnwys:

> *"… inadequate socialisation and habituation of puppies as well as tattooing of puppies for identification during rearing, poor environments during schooling, trialling and racing, inappropriate transportation at all stages, presence of dental disease and impacts of extreme weather."*[41]

**49.** Disgrifiodd yr Athro Andrew Knight waharddiad ar rasio milgwn fel un 'hir ddisgwyliedig', gan nodi niwed parhaus i les nad yw rheoleiddio wedi gallu mynd i'r afael ag ef.[42] Tynnodd sylw at gyfraddau uchel o anafiadau trychinebus a marwolaethau sydyn, safonau gwael o ran cadw cŵn a hwsmonaeth, cymdeithasu annigonol yn arwain at broblemau ymddygiad, a dietau diffygiol yn achosi afiechydon deintyddol. Cododd yr Athro Andrew Knight bryderon hefyd ynghylch diffyg tryloywder a'r gallu i olrhain miloedd o gŵn a fagwyd ond na ystyriwyd eu bod yn gŵn cystadlu, y mae llawer ohonynt yn diflannu heb gofnod.[43]

**50.** Cefnogodd Dr Emily Blackwell y safbwynt hwn, gan ddod i'r casgliad bod gwaharddiad yn gyfiawn ar sail lles anifeiliaid a phwysleisio na all rheoleiddio liniaru risgiau'n ddigonol drwy gydol cylch bywyd y milgi, o fridio a chadw mewn llety cŵn i rasio ac ymddeol.[44] Adleisiodd y Gymdeithas er Atal Creulondeb i Anifeiliaid Seland Newydd y sylw hwn, gan ddweud bod:

---

[40] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2025, paragraff 40
[41] PGRWB 11 – Clymblaid 'Cut the Chase', tudalen 2
[42] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 15
[43] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 45
[44] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 22

> *"… systemic issues inherent in commercial greyhound racing… After decades of attempted reform, the New Zealand Government concluded that these harms could not be eliminated through regulation alone."*[45]

**51.** Roedd gwrthwynebwyr y Bil yn cydnabod bod anafiadau'n digwydd, ond roeddent yn dadlau bod safonau lles o fewn y diwydiant wedi gwella'n sylweddol o dan oruchwyliaeth GBGB. Tynnodd GBGB sylw at fesurau fel gofal milfeddygol gwell, adrodd gorfodol ar anafiadau, a mentrau ailgartrefu fel tystiolaeth o ymrwymiad i welliant parhaus a hyrwyddo lles anifeiliaid drwy gydol oes milgi.

**52.** Disgrifiodd GBGB y Bil fel rhywbeth nad oedd yn 'ddarn difrifol o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid', ond yn 'farn ar hawliau anifeiliaid', gan fynnu mai rheoleiddio a 'chraffu cymdeithasol' yw'r ffordd orau o amddiffyn lles.[46] Adleisiodd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio y pryderon hyn, gan rybuddio bod y Bil yn blaenoriaethu gwahardd yn hytrach na 'ffyrdd o hyrwyddo a diogelu lles milgwn,' a thynnu sylw at oblygiadau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol gwaharddiad.[47]

**53.** Yn hytrach na gwaharddiad, a ystyriwyd yn anghymesur, dadleuodd gwrthwynebwyr y gallai rheoleiddio cryfach, trwyddedu cadarn, gorfodi llymach, a monitro tryloyw fynd i'r afael â phryderon lles yn effeithiol heb ddatgymalu'r gamp.

**54.** Heriodd rhai y modd o ddehongli data anafiadau a marwolaethau, gan awgrymu y dylid ystyried ffigurau yn eu cyd-destun. Nododd cynrychiolwyr y diwydiant fod y rhan fwyaf o'r anafiadau a gofnodwyd yn rhai bach ac yn rhai y byddai modd eu trin, gan ddadlau fod y system adrodd yn dangos tryloywder, yn hytrach na methiant.[48]

**55.** Rhybuddiodd gwrthwynebwyr hefyd y gallai gwaharddiad arwain at ganlyniadau anfwriadol, a allai waethygu canlyniadau lles. Dywedodd nifer o

[45] PGRWB 26 - SPCA Seland Newydd, tudalen 1
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 2
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio – 15 Hydref 2025, tudalen 1
[48] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraffau 235 a 237

randdeiliaid ac ymatebwyr i'r arolwg fod perygl i wahardd gweithgaredd ei yrru'n danddaearol, lle nad oes goruchwyliaeth a lle byddai safonau lles yn dirywio.[49]

## Ein barn ni

**56.** Ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth helaeth ar egwyddorion y Bil ac mae'n cydnabod barn gref cynrychiolwyr lles anifeiliaid ar y naill law a'r diwydiant ar y llaw arall.

**57.** Er bod egwyddorion moesegol yn aml yn sail i ddeddfwriaeth, rhaid i benderfyniadau i ddeddfu fod yn seiliedig ar dystiolaeth a data cadarn. Dylai cwestiynau moesegol – er enghraifft, a yw defnyddio anifeiliaid at ddibenion adloniant yn anghywir yn ei hanfod, yn gwbl briodol fod yn ystyriaeth i Aelodau unigol wrth benderfynu ar eu safbwynt ar egwyddorion cyffredinol y Bil, wedi eu llywio gan eu gwerthoedd a'u credoau personol. Rôl y Pwyllgor wrth graffu ar ddeddfwriaeth yw sicrhau bod cynigion yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn effeithiol, ac yn gyfreithlon yn ddemocrataidd.

**58.** Ar yr achlysur hwn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd yn gallu llunio barn wybodus ar y Bil oherwydd bod y sail dystiolaeth mor ddadleuol ac nad oedd yn ddigon cadarn. Er bod dadleuon cryf wedi eu gwneud o blaid y Bil ar sail lles anifeiliaid, mae cwestiynau sylweddol yn parhau ynghylch:

- digonolrwydd a dibynadwyedd y data;
- digonolrwydd gwaith ymgynghori Llywodraeth Cymru yn 2023;
- canlyniadau anfwriadol posibl gwaharddiad;
- effeithiolrwydd y Bil o ran gwella lles ar draws bywyd milgi rasio; a'r
- effaith economaidd ar y gymuned leol a'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant.

**59.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil wedi ei flaenoriaethu o fewn yr amserlen ddeddfwriaethol fel rhan o Gytundeb Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Er ein bod ni'n cydnabod y cyd-destun gwleidyddol ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth, yn ein barn ni, mae'r broses gyflymach wedi peryglu

[49] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Tachwedd 2025, tudalen 22

ansawdd y gwaith datblygu deddfwriaethol ac wedi gadael cwestiynau pwysig heb eu datrys.

**60.** Dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r Pwyllgor yn cymryd safbwynt pendant ar egwyddorion cyffredinol y Bil oherwydd diffyg sylfaen dystiolaeth glir a chadarn i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddeddfu. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod y materion a natur ddadleuol y dystiolaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ddull mwy trylwyr, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o ddatblygu polisïau er mwyn diogelu craffu ac uniondeb deddfwriaethol. Mae ein hystyriaeth fanwl wedi ei nodi yn yr adrannau Ein Barn ni yng ngweddill yr adroddiad hwn.

# 4. Tystiolaeth o broblemau lles anifeiliaid

## Blynyddoedd cynnar a bridio

**61.** Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn tynnu sylw sylw at bryderon sylweddol ynghylch tarddiad ac arferion bridio milgwn a ddefnyddir ar gyfer rasio ym Mhrydain. Nododd llawer o gyfranwyr fod tua 85 y cant o filgwn sy'n rasio ym Mhrydain yn cael eu bridio yn Iwerddon,[50] lle disgrifiwyd rheoliadau bridio gan Hope Rescue fel rhai nad oeddent gystal.[51] Cyfeiriodd Hope Rescue at 'wastraff' y diwydiant a thynged cŵn a fagwyd ar gyfer rasio nad ydynt yn 'cyrraedd y safon', gan gyfeirio at raglen ddogfen RTÉ yn 2019, *Running for their Lives*, a adroddodd fod tua 6,000 yn cael eu lladd yn flynyddol, a bod y diwydiant yn magu tua 1,000 yn fwy o gŵn bach nag sydd ei angen bob blwyddyn.[52]

**62.** Adleisiodd yr Athro Andrew Knight bryderon ynghylch 'gwastraffu' cŵn, gan ddatgan y credir bod miloedd yn 'diflannu' bob blwyddyn ledled y Deyrnas Unedig, a bod diffyg tryloywder ynghylch ble maent yn mynd a'r gallu i'w holrhain. Dywedodd fod cŵn nad ydynt yn cyrraedd y trac yn 'anweledig i bob pwrpas'. Cododd bryderon hefyd ynghylch bridio geist gan gynnwys yr oedrannau maent yn cael eu bridio; weithiau'n rhy ifanc, weithiau'n rhy hen ac weithiau'n rhy aml.[53]

**63.** Dywedodd GBGB wrthym, er nad yw ei gylch gwaith yn ymestyn i fridio, ei fod wedi ymrwymo i roi hwb i'w gefnogaeth i fridio lles uchel ym Mhrydain. Nododd GBGB fod cyfanswm nifer y milgwn o Iwerddon sy'n ymuno â rasys ym Mhrydain wedi gostwng 26% ers 2021.[54] Ychwanegodd ei fod wedi datblygu canllawiau 'anhygoel o gynhwysfawr' ar ofal blynyddoedd cynnar, gan gynnwys bridio, sy'n cael ei rannu gyda chymheiriaid yn Iwerddon, ochr yn ochr â rhaglenni addysgol ar gyfer bridwyr.[55]

[50] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 338
[51] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 180
[52] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 182
[53] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraffau 16 a 45
[54] Y ddau o Dystiolaeth Ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 3
[55] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 348

**64.** Cydnabu GBGB bryder hanesyddol ynghylch lles mewn perthynas ag Iwerddon ond dywedodd fod y gyfundrefn reoleiddio wedi cryfhau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nododd GBGB ymhellach:

> *"Since 2021, Greyhound Racing Ireland, the semi state-run regulator, has a full traceability system in place, to make sure all their dogs, from birth to when they finish racing, are accounted for."*[56]

**65.** Heriodd Greyhound Action Ireland dystiolaeth GBGB, gan ddweud bod dadansoddiad o System Olrhain Rásaíocht Con Éireann (RCETS) Greyhound Racing Ireland, wedi dangos, o blith y milgwn a aned yn 2021, fod 41 y cant (5,150 o gŵn) wedi marw neu heb eu cyfrif, er eu bod o dan bum mlwydd oed. Nododd nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys cŵn a allforiwyd i'r Deyrnas Unedig.[57]

## Llety cŵn

**66.** Ystyriodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth ar safonau lles ac amodau byw milgwn rasio, gan gynnwys arferion llety cŵn, hwsmonaeth, a goruchwyliaeth reoleiddiol. Cododd rhai tystion bryderon ynghylch yr amodau mae milgwn yn cael eu cadw ynddynt, tra'r oedd eraill yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth â deddfwriaeth bresennol a gwelliannau o ran monitro.

**67.** Mynegodd RSPCA Cymru bryderon bod rhai milgwn rasio yn treulio hyd at 95 y cant o'u hamser mewn llety cŵn hyfforddwyr heb fawr o gyfle i ryngweithio cymdeithasol na chyfoethogi eu bywydau. Adroddodd yr Athro Andrew Knight am ei brofiad o ddiffygion mewn safonau hwsmonaeth a llety cŵn preswyl, gyda chŵn yn aml yn cael eu cadw mewn amgylcheddau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i gymdeithasu â phobl a chŵn eraill. Esboniodd fod y diffyg cymdeithasu cynnar hwn yn gysylltiedig â phroblemau ymddygiad, gyda rhai ohonynt yn arwain at ewthanasia ar y traciau. Roedd pryderon pellach yn cynnwys darpariaeth ddeietegol wael, gyda chyn-filgwn rasio yn aml yn arddangos problemau deintyddol a briodolir i beidio â chael digon o faeth yn ystod eu gyrfaoedd rasio.[58]

**68.** Amlinellodd cynrychiolwyr y diwydiant y mesurau sydd ar waith i reoleiddio llety cŵn a hyrwyddo lles. Nododd GBGB fod llety cŵn hyfforddwyr yn destun

---

[56] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 339
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig: Greyhound Action Ireland - 27 Hydref 2025, paragraff 3
[58] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 16

archwiliadau milfeddygol blynyddol ac ymweliadau ar hap gan stiwardiaid cyflogedig, ochr yn ochr â gwiriadau gan archwilwyr annibynnol. Tynnodd GBGB sylw hefyd at fentrau lles, gan gynnwys canllawiau ar gyfoethogi a chymdeithasu, a gweithio gydag arbenigwyr ymddygiad milfeddygol i wella amgylcheddau cŵn a pharatoi milgwn ar gyfer trosglwyddo i gartrefi domestig.

**69.** Ceisiodd Mike Burton, hyfforddwr milgwn, ddangos ymdrechion i gynnal safonau lles yn ymarferol drwy ddisgrifio'r drefn ddyddiol sy'n cynnwys archwiliadau meddygol a chyfleoedd i filgwn 'grwydro a chwarae' am lawer o'r dydd.[59]

## Lles yn ystod rasio

**70.** Roedd materion yn ymwneud â lles milgwn wrth rasio yn ffocws sylweddol yn ystod yr ymchwiliad, gyda thystiolaeth yn cyfeirio at y risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â'r gamp a safbwyntiau gwahanol ar effeithiolrwydd y gwaith rheoleiddio presennol.

**71.** Nododd llawer o dystion ystadegau a gyhoeddwyd gan GBGB ei hun ar gyfer 2024, pan fu farw 346 o filgwn o achosion heblaw salwch naturiol, ac y cofnodwyd 3,809 o anafiadau ar draws traciau trwyddedig. Ar ôl gostwng ers 2018, cynyddodd marwolaethau ar y trac o 99 yn 2022, i 109 yn 2023 a 123 yn 2024, (gweler Tabl 1). Disgrifiodd y Groes Las y duedd ar i fyny hon mewn marwolaethau fel un sy'n peri pryder mawr ac sy'n dynodi risgiau lles systemig.

**Tabl 1 - Data GBGB ar Anafiadau ar y Trac**

| Cyferinod | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y rhediadau** | 426,139 | 410,607 | 318,346 | 359,083 | 362,427 | 364,981 | 355,682 |
| **Cyfanswm yr anafiadau a gafwyd ar draciau GBGB** | 4,963 | 4,970 | 3,575 | 4,422 | 4,354 | 4,238 | 3,809 |
| **Cyfradd yr anafiadau (% yn erbyn cyfanswm y rhediadau cŵn)** | 1.16% | 1.21% | 1.12% | 1.23% | 1.20% | 1.16% | 1.07% |
| **Cyfanswm nifer y marwolaethau ar draciau GBGB** | 242 | 207 | 200 | 120 | 99 | 109 | 123 |

[59] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 463

| Cyferinod | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd y marwolaethau (% yn erbyn cyfanswm y rhediadau cŵn)** | 0.06% | 0.05% | 0.06% | 0.03% | 0.03% | 0.03% | 0.03% |

Ffynhonnell: wedi ei atgynhyrchu'n uniongyrchol o gyhoeddiad GBGB, Licensed Greyhound Racing: Independently Verified Track Injury and Retirement Data for 2024.

**72.** Yn absenoldeb data am anafiadau ar lefel y trac a gyhoeddir gan GBGB, darparodd Achub Milgwn Cymru ddadansoddiad manwl o Stadiwm Milgwn Valley gan ddefnyddio data cardiau rasio rhwng Tachwedd 2023 a Hydref 2024.[60] Datgelodd hyn fod 601 o gŵn wedi rasio, gyda 267 o ddigwyddiadau niweidiol, sy'n cyfateb i gyfradd anafiadau neu ffitrwydd gwael blynyddol o 44.4 y cant, gan godi i 73.9 y cant ar gyfer cŵn sy'n gysylltiedig â Stadiwm Milgwn Valley. O'r rhain, rhoddwyd diwedd ar yrfa'r cŵn oherwydd 35 o'r anafiadau, ac arweiniodd 7 y cant o gwympiadau at analluogrwydd parhaol.[61]

**73.** Tynnodd llawer o dystion sylw at y peryglon cynhenid sy'n gysylltiedig â thraciau rasio hirgrwn, gan nodi bod straen mewn troeon a thagfeydd wrth y gornel gyntaf yn cynyddu'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau cyflym ac anafiadau difrifol.[62] Manylodd Achub Milgwn Cymru a'r Athro Andrew Knight ar y mathau o anafiadau a gafwyd, o grafiadau ysgafn, clwyfau, brathiadau ac anafiadau meinwe meddal dros dro i anafiadau mwy trychinebus i'r aelodau, fel toriadau i'r gar, anafiadau i'r cymalau a thrawma amrywiol. Mae milgwn hefyd yn dioddef o anafiadau sy'n gysylltiedig â straen sy'n datblygu dros amser o redeg dro ar ôl tro o gwmpas trac hirgrwn.[63] Esboniodd y tystion arbenigol bod y rhain yn gyflyrau prin iawn mewn anifeiliaid anwes domestig. Mae anafiadau'n ymestyn y tu hwnt i ddiwrnod y ras, gyda'r potensial am osteoarthritis a phoen cronig hirdymor yn parhau ar ôl i yrfa rasio milgwn ddod i ben.[64]

[60] Mae data cardiau rasio rasys milgwn yn set gynhwysfawr o ystadegau a gwybodaeth, a ddarperir yn rhaglen swyddogol y ras, sy'n helpu gwylwyr a betwyr i asesu perfformiad posibl pob milgi mewn ras.
[61] Tystiolaeth Ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru – 7 Hydref 2025, tudalen 8
[62] Er enghraifft, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 11
[63] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraffau 126-131
[64] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 131

**74.** Tynnodd GBGB sylw at welliannau mewn canlyniadau lles ers cyflwyno ei Strategaeth Lles.[65] Adroddodd GBGB fod y gyfradd marwolaethau mewn traciau trwyddedig wedi haneru ers 2018 i 0.03 y cant fesul rhediad, a bod y gyfradd anafiadau wedi gostwng i 1.07 y cant fesul rhediad yn 2024, i lawr o 1.21 y cant yn 2021, sef yr isaf a gofnodwyd erioed. Roedd achosion ewthanasia economaidd wedi gostwng o 175 yn 2018 i dri yn 2024, yn bennaf oherwydd ei Gynllun Adfer yn sgil Anafiadau, sy'n talu am driniaeth filfeddygol ar gyfer anafiadau sy'n dod â gyrfa i ben.[66] Cymharodd GBGB rasio milgwn â rasio ceffylau ym Mhrydain hefyd,[67] gan nodi bod gan rasio ceffylau gyfradd marwolaethau llawer uwch yn y data a adroddwyd, sef 0.25 y cant yn 2024.[68]

**75.** Manylodd GBGB ar y camau a gymerwyd i wella lles, gan gynnwys goruchwyliaeth filfeddygol, archwiliadau annibynnol, a buddsoddi mewn diogelwch traciau. Pwysleisiodd fod ei gyfundrefn reoleiddio wedi ei hachredu gan UKAS, gan ddarparu sicrwydd allanol o gydymffurfiaeth.[69]

**76.** Tynnodd GBGB sylw hefyd at uwchraddiadau seilwaith yn Stadiwm Milgwn Valley yn dilyn trwyddedu:

> *"Since 2023—the tail-end of 2023 was when the track was actually licensed by the GBGB… there was a substantial upgrade on the track itself, with £2 million spent there, because that involved the building of air-conditioned kennels, a vet's room—all those sorts of things that weren't there when the Valley was an unregulated track."*[70]

**77.** Pan holwyd Stadiwm Milgwn Valley, dywedodd wrthym nad oedd y stadiwm wedi bod yn destun camau gorfodi ond dywedodd bod swyddogion Safonau

---

[65] Bwrdd Milgwn Prydain Fawr: A Good Life for Every Greyhound
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 5
[67] Ymddengys bod data marwolaethau ar gyfer rasio ceffylau a rasio milgwn yn seiliedig ar wahanol ddulliau, felly dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau. Er enghraifft, mae data GBGB yn adrodd ar 'gyfanswm nifer y marwolaethau ar draciau GBGB'. Mae Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn dweud o 2021 ymlaen bod ceffylau 'a anafwyd yn angheuol neu a gafodd eu hewthaneiddio ar sail lles o ganlyniad uniongyrchol i'w hanafiadau ar ddiwrnod y ras neu o fewn 48 awr i ddiwrnod y ras' wedi eu cynnwys yn y data a adroddwyd.
[68] Cymdeithas Rasio Ceffylau Prydain: Making horseracing safer
[69] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 274
[70] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 257

Masnach wedi cael eu gwahodd i ymweld fel rhan o'u hymgysylltiad â phroses ymgynghori Llywodraeth Cymru.[71]

**78.** Fodd bynnag, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod arolygiadau wedi eu cynnal o dan Ddeddf 2006, yn bennaf mewn ymateb i gwynion. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

> *"There have been no criminal proceedings, but some breaches of the Animal Welfare Act were identified as a consequence of our visits in response to those complaints. I understand these related to cleanliness of kennels, but this was addressed with advice and written warnings."*[72]

**79.** Nododd Trwyddedu Anifeiliaid Cymru fod archwiliadau o lety cŵn a gynlluniwyd wedi eu cynnal yn 2023, ar gais y Prif Swyddog Milfeddygol, a chanfuwyd eu bod yn 'fach iawn.' Mynegodd Trwyddedu Anifeiliaid Cymru syndod bod y rhain wedi cael eu caniatáu gan GBGB.[73]

**80.** Nododd Dr Ellie Wigham fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ynghylch rasio milgwn yn canolbwyntio ar les ar y trac rasio, sy'n gyfran gymharol fach o'r hyn mae'r cŵn yn treulio eu hamser yn ei wneud, gyda thystiolaeth gyfyngedig ar gael ar faterion lles ehangach.[74]

## Ymddeol ac ailgartrefu

**81.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth o bryderon ynghylch lles milgwn ar ôl i'w gyrfaoedd rasio ddod i ben. Er bod y diwydiant yn adrodd am welliannau mewn cyfraddau ymddeol, disgrifiodd tystion ac elusennau lles anifeiliaid heriau parhaus wrth ailgartrefu cŵn wedi ymddeol, gan gynnwys problemau ymddygiad, problemau iechyd, a'r straen cynyddol ar ganolfannau achub.

---

[71] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 284
[72] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 593. Gweler hefyd Tystiolaeth Ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 10 Tachwedd 2025, tudalen 2 a Thystiolaeth Ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru – 21 Tachwedd 2025
[73] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 605
[74] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 19

**82.** Dywedodd Dr Rebekah Humphreys wrthym fod sefydliadau dan faich trwm yn barod oherwydd nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu gwaredu gan y gamp, a'u bod yn wynebu pwysau sylweddol i dderbyn cymaint o gŵn â phosibl, gan mai'r dewis arall a gyflwynir yn aml gan y diwydiant yw ewthanasia.[75]

**83.** Nododd ymhellach fod milgwn wedi ymddeol yn aml yn arddangos awydd ysglyfaethu uwch a sgiliau cymdeithasu cyfyngedig gydag anifeiliaid eraill, gan eu gwneud yn anodd i'w hailgartrefu. Ychwanegodd Achub Milgwn Cymru y gall poen cronig a phroblemau ymddygiad arwain at gostau uwch i fabwysiadwyr, gan greu rhwystrau ychwanegol o ran ailgartrefu llwyddiannus.[76]

**84.** Cyfeiriodd RSPCA Cymru at ddata a gyhoeddwyd gan GBGB a oedd yn dangos bod 51 o gŵn wedi eu dynodi'n anaddas i'w hailgartrefu yn y flwyddyn flaenorol, ac felly eu bod wedi eu difa. Roedd y ffigur hwn wedi cynyddu am ddwy flynedd yn olynol (gweler Tabl 1).

**85.** Amlinellodd GBGB y mesurau y mae wedi eu rhoi ar waith i gynorthwyo ag ymddeoliad ac ailgartrefu milgwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Ymddeol i Filgwn, sy'n darparu cymorth ariannol i gynorthwyo ailgartrefu.
- Gwiriadau dilynol i sicrhau bod safonau lles yn cael eu cynnal.
- Canllawiau ar ofalu am gŵn sy'n aros mewn llety cŵn hyfforddwyr cyn cael eu hailgartrefu, wedi eu hategu gan ymweliadau gan Filfeddygon Rheoleiddio Rhanbarthol GBGB.

**86.** Adroddodd GBGB fod y gyfradd ymddeol wedi gwella o 88 y cant yn 2018 i 94 y cant yn 2024.[77] Mewn tystiolaeth lafar, gwrthododd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio honiadau bod milgwn cofrestredig mewn cyflwr gwael pan gânt eu hailgartrefu, gan ddatgan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i filgwn gyrraedd ei ddwy ganolfan gartrefu gysylltiedig yn barod i'w mabwysiadu.[78]

**87.** Mynegodd GBGB a'r Cyngor Betio a Hapchwarae bryder y byddai gwaharddiad ar rasio milgwn yn cynyddu nifer y cŵn sydd angen cartrefi yn

---

[75] Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Rebekah Humphreys – 3 Hydref, tudalen 2
[76] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 135
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 8
[78] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 311

sylweddol ac yn sydyn, gan amharu ar ymdrechion GBGB i gyflawni cynllun cynaliadwy lle mae nifer y milgwn sy'n dechrau rasio yn hafal i'r rhai sy'n cael eu hailgartrefu ar ôl ymddeol o'r gamp.[79]

**88.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd RSPCA Cymru nad yw Cynllun Milgwn sy'n Ymddeol GBGB yn ymestyn i ganolfannau ailgartrefu sy'n cefnogi gwaharddiad ar rasio milgwn.[80]

**89.** Dywedodd GBGB ei fod yn parhau i weithio'n agos gyda Greyhound Racing Ireland (GRI) i sicrhau bod modd olrhain milgwn sy'n dod i mewn i fyd rasio GBGB o Iwerddon neu'n dychwelyd i Iwerddon i rasio neu fridio.[81] Ym mis Awst 2025, cyhoeddodd GBGB hefyd ei fod yn datblygu system gofrestru ar gyfer milgwn a fagwyd ym Mhrydain er mwyn sicrhau mwy o oruchwyliaeth gan GBGB o enedigaeth milgwn.[82]

**90.** Darparodd y Glymblaid astudiaethau achos manwl ar gyfer tri chi a ildiwyd i Achub Milgwn Cymru eleni yr oedd angen gofal milfeddygol parhaus sylweddol arnynt, ac na chafwyd unrhyw gymorth ariannol ar eu cyfer drwy Gynllun Milgwn sy'n Ymddeol GBGB.[83]

## Ansawdd y dystiolaeth

**91.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth helaeth a gwrthgyferbyniol yn aml ar safonau lles anifeiliaid o fewn y diwydiant rasio milgwn. Cyflwynodd cynrychiolwyr y diwydiant ac elusennau lles anifeiliaid lythyrau gwrthbrofi yn herio cywirdeb a dehongliad tystiolaeth ei gilydd.[84]

**92.** Dadleuodd Achub Milgwn Cymru fod proses adrodd ar anafiadau GBGB yn tanamcangyfrif y niwed oherwydd ei fod wedi ei gyfyngu i gofnodi anafiadau sy'n amlwg yn syth ar ôl ras. Dywedodd fod anafiadau cyhyrol ac anafiadau sy'n gysylltiedig â straen yn aml yn dod i'r amlwg yn ddiweddarach, gan adael bwlch mewn dealltwriaeth.[85]

---

[79] PGRWB 13 - Y Cyngor Betio a Hapchwarae, tudalen 4
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig: Clymblaid 'Cut the Chase' – 5 Tachwedd 2025, tudalen 1
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 4
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 4
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig: Clymblaid 'Cut the Chase' – 5 Tachwedd 2025, tudalen 1
[84] Mae'r holl ohebiaeth ar gael ar dudalen we'r Bil.
[85] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 126-131

**93.** Er bod GBGB yn darparu ffigurau cyfanredol ar gyfer anafiadau a marwolaethau, fe wnaeth elusennau lles anifeiliaid, gan gynnwys Achub Milgwn Cymru, yr Ymddiriedolaeth Cŵn, ac RSPCA Cymru, feirniadu GBGB am fethu cyhoeddi:

- Data anafiadau ar lefel y trac.
- Dadansoddiadau manwl o anafiadau yn ôl math, difrifoldeb ac achos.
- Canlyniadau archwiliadau llety cŵn ac arolygiadau trwyddedu.

**94.** Nododd yr Ymddiriedolaeth Cŵn hefyd bod diffyg tryloywder ac olrheinedd ynghylch bridio, mewnforion a gyrfaoedd rasio.[86]

**95.** Dywedodd y Groes Las fod y diffyg tryloywder yn atal y gallu i nodi traciau rasio risg uchel ar gyfer gwelliannau wedi eu targedu. Nododd hefyd ddiffyg gwybodaeth am sut mae GBGB yn defnyddio'r data mae'n ei gasglu i sbarduno newidiadau lles ystyrlon.

> *"There is no evidence provided to demonstrate how such information is collated and how that informs industry development to ensure meaningful changes are actually then made."*[87]

**96.** Tynnwyd sylw at gymariaethau rhyngwladol i ddangos dulliau amgen. Er enghraifft:

- Yn Seland Newydd, mae rheolau a gyflwynwyd yn 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd am anafiadau y tu allan i ddiwrnodau ras, er bod gorfodi hynny'n parhau i fod yn heriol.[88]
- Mae Awstralia a Seland Newydd hefyd yn cyhoeddi Adroddiadau Stiwardiaid manwl ar gyfer pob cyfarfod rasio, gan restru anafiadau unigol – rhywbeth nad yw GBGB yn ei wneud.[89]

**97.** Mae data a gyhoeddodd GBGB ar gyfer 2024 yn cyfeirio at gyfradd marwolaethau ar y trac o 0.03 y cant. Disgrifiodd Achub Milgwn Cymru hyn fel rhywbeth camarweiniol oherwydd ei fod yn ymwneud â'r risg fesul rhediad yn

[86] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 59-60
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig: Y Groes Las – 6 Hydref 2025, tudalen 3
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru – 7 Hydref 2025, tudalen 5
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru – 7 Hydref 2025, tudalen 5

hytrach na'r risg i gŵn unigol. Nododd hefyd nad yw cyfanswm nifer y cŵn rasio wedi ei ddatgelu gan GBGB.

**98.** Wrth roi tystiolaeth lafar, gofynnwyd i GBGB a oedd yn cytuno â dadansoddiad o'i ddata a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Lles Anifeiliaid yr Alban yn 2023, a awgrymodd fod 24 y cant o risg y byddai ci a gymerodd ran mewn rasys wedi eu rheoleiddio yn cael anaf mewn blwyddyn.[90] Dywedodd GBGB nad oedd yn gallu cadarnhau a oedd yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, ac nad oedd yn gallu datgan canran y cŵn sydd wrthi'n rasio sy'n cael anafiadau.[91]

**99.** Gwrthododd GBGB yn gryf honiadau gan elusennau lles anifeiliaid bod ei ystadegau cyhoeddedig yn tanamcangyfrif risgiau anafiadau a marwolaethau. Honnodd GBGB fod safonau wedi gwella o dan ei fframwaith rheoleiddio a beirniadodd ddadansoddiadau yn seiliedig ar ffigurau wedi eu hallosod o nodiadau cardiau rasys (gweler paragraff 74) yn hytrach na chofnodion milfeddygol – rhywbeth a ddisgrifiodd fel sefyllfa 'cwbl amhriodol.'[92]. Eglurodd hefyd fod y data anafiadau a gyhoeddwyd yn cofnodi nifer yr anafiadau, nid nifer y cŵn unigol a anafwyd, sy'n golygu y gall ffigurau fod yn gamarweiniol os cânt eu cyflwyno fel cyfrifiadau cŵn. Dywedodd:

> *"The appropriate way of measuring the risk of injury or fatality to a greyhound is by assessing the total number of injuries or fatalities sustained compared to the total number of runs, as is presented through GBGB's independently verified annual data."*[93]

**100.** Pwysleisiodd GBGB fod ei ddata yn cael ei archwilio'n annibynnol a'i gyflwyno yn unol â gofynion DEFRA, gan ddangos gwelliannau mesuradwy mewn canlyniadau lles. Mynnodd GBGB fod cymariaethau neu ddehongliadau y tu allan i'r fframwaith dilys hwn yn camliwio'r darlun gwirioneddol o rasio rheoleiddiedig.

**101.** Cydnabu GBGB nad yw'n cyhoeddi data lefel trac ond eglurodd fod hyn oherwydd pryderon ynghylch camddefnyddio a'r posibilrwydd i grwpiau ymgyrchu dargedu traciau rasio unigol. Dywedodd GBGB ei fod wedi cynnig sesiwn friffio lafar i Lywodraeth Cymru ar ddata penodol Stadiwm Milgwn Valley,

[90] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 204
[91] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 215
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 20 Hydref 2025, tudalen 2
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 20 Hydref 2025, tudalen 2

ond nad oedd hyn wedi digwydd ar ôl i'r penderfyniad i ddeddfu gael ei gyhoeddi. Dangosodd fod nifer cymedrig y cŵn a fu farw ar draws yr holl draciau trwyddedig yn 2024 yn gyfanswm o chwech, a bod y cyfartaledd ar gyfer Stadiwm Milgwn Valley islaw hyn, er nad oedd amlder cymharol rasio ar draws traciau yn glir.[94]

## Ein barn ni

**102.** Mae'r Pwyllgor yn canfod bod y dystiolaeth ar les anifeiliaid yn anghyflawn ac yn destun cryn her, fel y gwelir yn y cyfnewid helaeth o ohebiaeth rhwng rhanddeiliaid a ddaeth i law. Er i ni glywed tystiolaeth filfeddygol gymhellol am natur yr anafiadau a gafwyd ar y trac a'r canlyniadau lles hirdymor ar gyfer milgwn rasio, mae union raddfa'r niweidiau hyn a'r graddau y gallai rheoleiddio fod wedi eu lliniaru yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cynnal gwerthusiad trylwyr o'r data a materion lles ac wedi gwneud mwy i sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn cyn gwneud y penderfyniad i ddeddfu. Rydym yn difaru na wnaed hyn ac, yn ein barn ni, mae'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn yn tanseilio ein hyder yn y rhesymeg polisi dros gynnig y Bil.

**103.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig terfyn amser byrrach ar gyfer adrodd ar waith craffu cyfnod 1 y Bil hwn, sef wyth wythnos eistedd yn lle'r 13 wythnos arferol. Byddem wedi hoffi cael mwy o amser i archwilio'r materion hyn yn llawn cyn dod i gasgliad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**104.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod mai dim ond rhan o ddarlun llawer ehangach y mae'r Bil yn mynd i'r afael ag ef. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn sy'n digwydd ar y trac, ond mae pryderon wedi cael eu codi ynghylch materion lles drwy gydol oes milgi, gan gynnwys arferion bridio a symudiadau trawsffiniol o Iwerddon. Mae sefydliadau lles wedi dadlau bod heriau lles systemig drwy gydol cylch bywyd milgi rasio, ac ni fydd y ddeddfwriaeth hon ar ei phen ei hun yn datrys y problemau ehangach hynny, yn enwedig gan y gall cŵn barhau i rasio yn Lloegr. Er na fyddai comisiynu gwaith pellach ar hyn o bryd yn berthnasol i'r Bil sydd ger ein bron, barn gref y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cymryd golwg gynhwysfawr ar les gydol oes milgwn rasio cyn penderfynu deddfu.

[94] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 200

# 5. Rheoleiddio rasys milgwn

**105.** Archwiliodd y Pwyllgor benderfyniad Llywodraeth Cymru i wahardd rasio milgwn yn hytrach na chryfhau rheoleiddio.

**106.** Mae safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiamwys: y prif fater sy'n gyrru'r ddeddfwriaeth hon yw'r lefelau annerbyniol o uchel o anafiadau a marwolaethau ymhlith milgwn sy'n cymryd rhan mewn rasys. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet welliannau mewn safonau lles ar draciau trwyddedig, ond pwysleisiodd fod marwolaethau ac anafiadau yn parhau i fod ar lefelau uchel. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod hyn yn dystiolaeth bendant a chlir bod lefelau annerbyniol o uchel o farwolaethau ac anafiadau ynghlwm wrth rasys milgwn, na ellir eu cyfiawnhau o dan unrhyw drothwy derbynioldeb.[95]

**107.** Pan gafodd ei holi ynghylch y cwestiwn a allai rheoleiddio llymach fynd i'r afael â'r pryderon hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr opsiwn hwn wedi cael ei ystyried yn drylwyr a'i ddiystyru.[96] Eglurodd y byddai ymdrechion i osod amodau llymach, gan fynd ymhellach nag amodau trwydded GBGB, fel gwahardd llith mecanyddol neu newid dyluniad y trac, yn gyfystyr â gwaharddiad i bob pwrpas, gan y byddai mesurau o'r fath yn gwneud rasio yn anhyfyw yn fasnachol. Cyfeiriwyd at enghreifftiau rhyngwladol, yn enwedig Seland Newydd, lle'r oedd dulliau rheoleiddio wedi methu lleihau anafiadau a marwolaethau, gan arwain yn y pen draw at benderfyniad i ddeddfu i wahardd rasio.[97] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r data sydd ar gael yn gyhoeddus gan GBGB wedi atgyfnerthu'r casgliad hwn, gan ddangos na fyddai rheoleiddio ar ei ben ei hun yn atal niwed.[98]

**108.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach nad yw cyfundrefn drwyddedu bresennol GBGB wedi cael gwared ar anafiadau a marwolaethau yn Stadiwm Milgwn Valley, er bod safonau lles wedi gwella.[99] Ar ben hynny, roedd amlder y rasys yn Stadiwm Milgwn Valley wedi cynyddu o un i dri diwrnod yr wythnos ers

---

[95] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 6 Tachwedd 2025, paragraff 31
[96] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 6 Tachwedd 2025, paragraff 63
[97] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 6 Tachwedd 2025, paragraff 46
[98] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 6 Tachwedd 2025, paragraff 59
[99] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 17

dod yn drac rasio trwyddedig GBGB.[100] Yn seiliedig ar batrymau a welwyd mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyn yn cydberthyn â thuedd uwch i gael anafiadau, a marwolaethau. Yn dilyn hynny, mewn tystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd "cynnydd yn nifer y rasys yn arwain at nifer uwch o anafiadau a marwolaethau os yw'r gyfradd farwolaethau yn parhau i fod yn gyson neu'n dangos dim ond mân amrywiad".[101]

**109.** Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oes data dibynadwy yn bodoli ar gyfer y cyfnod pan oedd Stadiwm Milgwn Valley yn gweithredu fel trac heb drwydded, ond mae data crynodedig GBGB yn gyson yn dangos niwed parhaus. Cynghorodd swyddogion ymhellach y byddai cyflwyno cyfundrefn drwyddedu yng Nghymru yn efelychu trefniadau presennol GBGB i raddau helaeth, yn hytrach na darparu mesurau diogelwch ychwanegol sylweddol.[102]

## Effeithiolrwydd gwaith rheoleiddio

**110.** Cododd elusennau lles anifeiliaid bryderon sylweddol ynghylch y fframwaith rheoleiddio presennol a weithredir gan GBGB, er gwaethaf ei achrediad gan UKAS. Tynnodd yr Ymddiriedolaeth Cŵn sylw at wrthdaro buddiannau posibl gan fod GBGB yn goruchwylio gweithrediadau masnachol a safonau lles.

**111.** Heriodd yr Ymddiriedolaeth Cŵn ddibyniaeth GBGB ar achrediad UKAS hefyd. Dywedodd nad yw ardystiad UKAS yn darparu asesiad o filgwn na'u lles. Dywedodd mai ardystiad archwilio dogfennau yn unig ydyw, yn hytrach na gwirio amodau lles neu ganlyniadau ar gyfer cŵn.[103] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd UKAS mai ei rôl yw achredu cyrff ardystio fel GBGB a'i archwilwyr, Supply Chain In-Sites Limited, gan sicrhau eu bod yn dechnegol gymwys ac yn ddiduedd i gynnal archwiliadau o dan eu cynlluniau priodol.[104] Roedd elusennau lles anifeiliaid yn pryderu bod y dull yn ymddangos fel pe bai'n darparu sicrwydd annibynnol heb fynd i'r afael â risgiau lles go iawn.

**112.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig ac atodol GBGB yn amlinellu'n fanwl y mesurau a gymerwyd i wella safonau lles ac yn pwysleisio bod pob stadiwm a llety cŵn

---

[100] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 17
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru – 24 Tachwedd 2025, tudalen 2
[102] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 22
[103] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 65
[104] Tystiolaeth ysgrifenedig: UKAS – 10 Tachwedd 2025, tudalen 2

trwyddedig yn cael archwiliadau annibynnol blynyddol. Cydnabu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod achrediad UKAS yn cynnig rhywfaint o sicrwydd, ond dywedodd nad yw'n cyfateb i gyfundrefn gwbl annibynnol.[105]

## Y potensial ar gyfer rheoleiddio pellach yng Nghymru

**113.** Archwiliodd y Pwyllgor y syniad a allai rheoleiddio estynedig fod wedi darparu dewis arall yn lle gwaharddiad llwyr ar rasio milgwn. Yn wahanol i Loegr, nid oes gan Gymru fframwaith statudol ar gyfer y gamp ar hyn o bryd. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gellid bod wedi ystyried trwyddedu fel y cam cychwynnol. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er y gallai trwyddedu fod wedi bod yn gam cyntaf cymesur, ei bod yn annhebygol y byddai'n mynd i'r afael â'r pryderon craidd ynghylch lles. Cytunodd Trwyddedu Anifeiliaid Cymru y gallai dull graddol drwy drwyddedu fod wedi profi cydymffurfiaeth cyn symud i waharddiad.[106]

**114.** Awgrymodd Comisiwn Lles Anifeiliaid yr Alban y byddai angen i reoleiddio ystyrlon fod yn annibynnol ar GBGB ac y byddai gofyn cael dull cydgysylltiedig ar draws y gwledydd, yn ogystal â newidiadau gwirioneddol radical yn nyluniad traciau.[107] Daeth Comisiwn Lles Anifeiliaid yr Alban i'r casgliad na ellid cyflawni'r newidiadau hyn drwy reoleiddio.[108] Yn yr un modd, dadleuodd yr Ymddiriedolaeth Cŵn na allai unrhyw fesur o reoleiddio wneud gweithgaredd sydd yn ei hanfod yn beryglus yn ddigon diogel i warchod lles yr anifeiliaid hyn.[109] Dywedodd yr Athro Andrew Knight mai'r newid cadarnhaol unigol mwyaf i les o ran lleihau anafiadau a marwolaethau fyddai sythu'r trac, a fyddai'n golygu'r angen am fuddsoddiad sylweddol.[110]

**115.** Roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y Kennel Club a'r Gynghrair Cefn Gwlad Cymru, o'r farn y dylid bod wedi ceisio dod o hyd i ateb rheoleiddiol cyn

[105] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 603
[106] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 532
[107] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 33
[108] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 34
[109] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 40
[110] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 115

gwaharddiad llwyr. Ychwanegodd y Gynghrair Cefn Gwlad Cymru ei bod hi'n 'syndod' nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cod statudol.[111]

**116.** Dywedodd GBGB fod Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i edrych ar y potensial ar gyfer mwy o reoleiddio, a byddai GBGB a Stadiwm Milgwn Valley wedi croesawu hynny.[112]

## Ein barn ni

**117.** Er bod cytundeb eang ymhlith y Pwyllgor bod yn rhaid diogelu lles milgwn, nid oedd modd i ni gyrraedd safbwynt ar y cyd ynghylch y cwestiwn ai gwaharddiad yw'r mecanwaith mwyaf priodol a chymesur i gyflawni hyn.

**118.** O ystyried natur ddadleuol ac annigonol y data, nid oedd modd i'r Pwyllgor allu pennu gydag unrhyw sicrwydd i ba raddau mae rheoleiddio gwell wedi cyflawni canlyniadau lles gwell. Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod safonau lles wedi gwella o dan drwyddedu GBGB, mae parhad anafiadau a marwolaethau yn codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd rheoleiddio fel ateb hirdymor.

**119.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi nad oes eglurder ynghylch beth sy'n cyfrif fel lefel 'annerbyniol o uchel' o anafiadau a marwolaethau, nac ar ba bwynt y gellid ystyried lefelau o'r fath yn dderbyniol, gan wneud hyn yn farn oddrychol.[113] Mae'r diffyg trothwyon diffiniedig hyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu a allai gwelliannau mewn rheoleiddio fyth gyrraedd safon y cytunir arni o ran diogelu lles.

**120.** Derbyniodd rhai Aelodau, er gwaethaf yr anawsterau o ran y data a'r dull a ddefnyddiwyd, fod data GBGB ei hun yn dangos na ellir cael gwared ar y risgiau sy'n gynhenid yn y gamp drwy reoleiddio, gan felly gefnogi'r penderfyniad i ddeddfu ar gyfer gwaharddiad.

**121.** Roedd Aelodau eraill yn aneglur ynglŷn â'r sail dros fynd yn syth i waharddiad, ac roeddent o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi archwilio dull graddol, gan gyflwyno rheoleiddio gwell neu gyfundrefn drwyddedu statudol cyn symud ymlaen i wahardd.

---

[111] PGRWB 02 – Cynghrair Cefn Gwlad Cymru, tudalen 2
[112] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 391
[113] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 6 Tachwedd 2025, paragraff 91

**122.** Mynegodd Aelod arall y farn bod y rhesymeg dros benderfyniad Llywodraeth Cymru yn glir, ac na fyddai rheoleiddio llymach yn effeithiol wrth fynd i'r afael â phryderon lles nac yn gymesur o ystyried mai dim ond un stadiwm sy'n parhau i fod yn weithredol yng Nghymru.

# 6. Dull datblygu polisi

**123.** Archwiliodd y Pwyllgor sut roedd Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei pholisi i wahardd rasio milgwn o ystyried bod y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025–26 wedi ei chyflawni yn dilyn cytundeb â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar nifer o faterion polisi, gan gynnwys “cam i wahardd rasio milgwn yng Nghymru”.

**124.** Pan ofynnodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i Ysgrifennydd y Cabinet a fyddai’r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26 wedi pasio heb gytundeb i gyflwyno’r Bil, ymatebodd, “I have no idea. It’s not pertinent to my consideration of this legislation.”[114]. Yn ddiweddarach, cydnabu’r cysylltiad â thrafodaethau ar y gyllideb ond pwysleisiodd nad oedd wedi cael unrhyw effaith ar y penderfyniad polisi fel Gweinidog:

> *“… my bringing this forward is based on the ethical considerations, the injuries, the fatalities—all of the other things we’ve touched on.”*[115]

**125.** Cwestiynodd cynrychiolwyr y diwydiant broses ac amseriad y Bil. Dywedodd GBGB nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu yn y gwaith cydweithredol angenrheidiol gyda’i Grŵp Gweithredu cyn cyflwyno’r ddeddfwriaeth, gan nodi er enghraifft y gellid bod wedi amlinellu goblygiadau cost y Bil yn llawn pe bai ymgynghori effeithiol â’r diwydiant wedi digwydd.[116] Tynnodd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio sylw hefyd at y ffaith nad yw’r Grŵp Gweithredu wedi cyflwyno adroddiad eto, ac adleisiodd bryderon ynghylch ymgynghori annigonol. Dywedodd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio:

> *“We do not believe that the Welsh Government has carried out the necessary consultation or adequately worked with the RPA, the Valley Greyhound Stadium or those impacted directly by this Bill.”*[117]

**126.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol a gyfrannodd at ymgynghoriad 2023 wedi nodi bylchau yn y ddeddfwriaeth, ond

[114] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad: Cofnod y Trafodion - 20 Hydref 2025, paragraff 55
[115] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad: Cofnod y Trafodion - 20 Hydref 2025, paragraff 90
[116] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 12
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio – 15 Hydref 2025, tudalen 12

nad oedd wedi gofyn yn benodol am waharddiad.[118] Nododd hefyd fod bylchau lles anifeiliaid a godwyd gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, gan gynnwys gwasanaethau bridio ategol heb drwydded a gwastrodi heb drwydded, yn parhau i fod yn berthnasol a bod angen mynd i'r afael â'r materion hynny o hyd.[119]

## Ein barn ni

**127.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod amseriad y penderfyniad i ddeddfu wedi cwtogi ar y broses arferol o ddatblygu polisi. Fel y nododd un aelod, 'dylai Bil fod yn seiliedig ar ddatblygu polisi; dyma ddatblygu polisi yn seiliedig ar Fil.' Yn yr achos hwn, mae amserlennu a dilyniant penderfyniadau wedi bod ymhell o fod yn ddelfrydol. Dylai tystiolaeth ac ymgynghori ragflaenu deddfwriaeth, ond cyflwynwyd y Bil heb sail dystiolaeth y cytunwyd arni, nac asesiadau effaith cyflawn, nac ymgysylltu cynhwysfawr â'r cyhoedd, chwaith. Yn wir, mae'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei defnyddio yn deillio o un cwestiwn yn gofyn am farn ar waharddiad a gafodd ei gynnwys mewn ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid.

**128.** Mae pryder sylweddol hefyd bod yr amseru, i bob golwg, wedi cael ei ddylanwadu gan ystyriaethau gwleidyddol a chyllidebol yn hytrach na chasgliad proses datblygu polisi gadarn. Mae'r Pwyllgor yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn dryloyw ynglŷn â'r gyrwyr hyn ac yn pwysleisio y dylai deddfwriaeth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar resymeg glir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er na ellir unioni'r diffygion hyn bellach, yn ein barn ni maent yn tanseilio hyder yn y broses ddeddfwriaethol, a dylent fod yn wers ar gyfer llunio polisïau yn y dyfodol.

**129.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi dibynnu ar ddadl foesegol fel elfen allweddol o'r rhesymeg dros y Bil hwn, ac yn nodi bod rhai tystion wedi gwneud cymariaethau â chwaraeon eraill, fel rasio ceffylau, lle adroddir bod cyfraddau marwolaethau yn sylweddol uwch. Rydym yn ymwybodol mai rôl y Pwyllgor yw ystyried y cynnig sydd ger ein bron a chraffu ar ei rinweddau o fewn cwmpas y Bil. Fodd bynnag, mae cymhwyso fframwaith moesegol yn ddetholus i un gweithgaredd yn codi cwestiynau ynghylch cysondeb ar draws gweithgareddau chwaraeon a hamdden eraill, gan dynnu sylw hefyd at yr angen

[118] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – 6 Hydref 2025, tudalen 3
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – 6 Hydref, tudalen 3

am ddull clir a chydlynol o ddefnyddio dadleuon moesegol wrth lunio polisïau yn y dyfodol.

# 7. Awydd y cyhoedd am rasio milgwn

**130.** Archwiliodd y Pwyllgor lefel y gefnogaeth gyhoeddus i'r gamp a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i wahardd rasio milgwn.

**131.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod rasio yng Nghymru wedi bod yn dirywio dros nifer o flynyddoedd, gan nodi gostyngiad parhaus yn nifer y bobl sy'n mynychu ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.[120] Fodd bynnag, nododd fod masnacheiddio drwy gamblo wedi sbarduno mwy o weithgarwch mewn rhai ardaloedd.

**132.** Dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru eu bod yn dal i aros am gadarnhad o nifer yr ymwelwyr â Stadiwm Milgwn Valley ond, ar ôl holi pobl drwy'r gwaith, a thrwy bobl roeddent yn eu hadnabod, mae adborth anecdotaidd yn awgrymu bod y gamp yn llai deniadol na gweithgareddau hamdden eraill.[121]

**133.** Cydnabu cynrychiolwyr y diwydiant ddirywiad hirdymor, ond gan ddadlau fod y gamp yn parhau i fod yn hyfyw. Dywedodd GBGB fod y gostyngiad yn nifer y traciau ers yr Ail Ryfel Byd oherwydd ailddatblygu i raddau helaeth, ond ychwanegodd po leiaf yr aeth y gamp, y mwyaf cynaliadwy yr aeth y gamp hefyd.[122]

**134.** Cydnabu Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio fod y traciau wedi cau ond dywedodd fod galw parhaus, gan nodi bod Rhydychen wedi ailagor a bod Parc Dunstall wedi cael ei lansio, tra bod bwyty Romford bron yn llawn ar nosweithiau Gwener a Sadwrn.[123]

**135.** Pwysleisiodd Sports Information Services (SIS), ar lefel economaidd a diwylliannol, ei fod yn dal i fod wrth wraidd bywyd siopau betio, gan ddyfynnu data'r Comisiwn Hapchwarae bod rasio milgwn yn cyfrif am 12 y cant o arian parod dros y cownter ar draws siopau betio.[124] Adroddodd SIS hefyd fod y gamp yn chweched ymhlith chwaraeon gwylwyr, gan ddenu 1.2 miliwn o bobl yn

[120] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 68
[121] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 77
[122] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 174
[123] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 180
[124] Y ddau, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 176

flynyddol, a darparu dros 22,000 o rasys milgwn y flwyddyn i fwy na 400 o gwsmeriaid mewn 50 o wledydd.[125]

**136.** Disgrifiodd Stadiwm Milgwn Valley bresenoldeb lleol cymedrol, gyda chyfartaledd o tua 200 o bobl yr wythnos, gyda 'thua 150' mewn cyfarfodydd nos Sadwrn a nifer gref o bobl yn bresennol yn nigwyddiadau Wythnos Genedlaethol y Milgwn.[126]

## Ein barn ni

**137.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder y teimladau o fewn y cymunedau lles anifeiliaid a rasio, rhaid iddo hefyd ystyried y budd cyhoeddus ehangach. Mae tystiolaeth yn dangos bod y gamp ar lwybr o ddirywiad hirdymor, ac mae rasio milgwn yn parhau i fod yn weithgaredd ymylol yng Nghymru, wedi ei ganoli ar un stadiwm.

**138.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar y rhai sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol, yn enwedig unigolion y gallai eu bywoliaeth gael ei heffeithio, ac mae wedi ystyried ei rôl graffu gyda diwydrwydd a gofal. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw hyn yn ymddangos yn fater o bryder cyhoeddus eang sy'n gofyn am gamau deddfwriaethol ar unwaith.

[125] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 169
[126] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 161

# 8. Cefnogaeth y cyhoedd i'r Bil

**139.** Tynnodd llawer o randdeiliaid sylw at y ddeiseb a'r ymgynghoriad yn 2023 fel 'tystiolaeth ddiamheuol' o gefnogaeth gyhoeddus gref i roi terfyn ar rasio milgwn yng Nghymru. Cyfeiriodd y Glymblaid hefyd at arolygon barn, a ddangosodd bod:

> *"… 77% of people either fully support (52%) or somewhat support (25%) the coalition's calls for Welsh Government action."*[127]

**140.** Fodd bynnag, dadleuodd GBGB fod barn y cyhoedd wedi cael ei chamliwio gan Lywodraeth Cymru yn yr achos dros wahardd. Heriodd GBGB yr honiad bod y ddeiseb yn dangos 'cefnogaeth gyhoeddus lethol i waharddiad', gan ddisgrifio hynny fel argraff gamarweiniol. Tynnodd sylw at y canlynol:

- Mae'r honiad bod '35,000 o bobl ledled Cymru' wedi galw am roi terfyn ar rasio milgwn yn anghywir, gan mai dim ond 53 y cant o'r llofnodwyr oedd wedi eu lleoli yng Nghymru.
- Mae'r ddeiseb yn dyddio o gyfnod cyn trwyddedu Stadiwm Milgwn Valley ac felly nid yw'n adlewyrchu ymwybyddiaeth o safonau lles cyfredol na rasio rheoleiddiedig.
- Ni chafodd gwrth-ddeiseb yn cefnogi rasio milgwn, gyda thros 10,000 o lofnodion, ei hystyried tan ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi'r bwriad i ddeddfu, gan ddangos diffyg cydbwysedd wrth ystyried barn y cyhoedd.

**141.** Cwestiynodd GBGB hefyd ddibyniaeth Llywodraeth Cymru ar ymgynghoriad 2023 fel sail ar gyfer deddfu. Dywedodd:

- Nid oedd tudalen we ymgynghoriad 2023 yn gofyn yn benodol am farn ar wahardd rasio milgwn.
- Dim ond 1,180 o ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad 2023 yn gyffredinol, sy'n llai na 0.04 y cant o boblogaeth Cymru.
- Roedd 40 y cant o'r rhai oedd o blaid gwaharddiad (28.32 y cant o'r holl ymatebion) yn ddyblygiadau o ymgyrch a drefnwyd gan grŵp lles

[127] PGRWB 11 – Clymblaid 'Cut the Chase', tudalen 7

anifeiliaid. Heb gynnwys dyblygiadau, dim ond 36 y cant oedd yn cefnogi gwaharddiad graddol, tra bod 35 y cant yn gwrthwynebu neu heb benderfynu.[128]

**142.** Dadleuodd GBGB fod cyfyngiadau'r ymgynghoriad yn tanseilio ei ddilysrwydd a dywedodd fod lleisiau'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gamp, yn ogystal â'r cymunedau a'r busnesau sy'n dibynnu arni, wedi cael eu gwthio i'r ochr yn y broses.

**143.** Dywedodd Cynghrair Cefn Gwlad Cymru fod diffyg ymgynghori pellach ar ôl y penderfyniad i ddeddfu yn gyfle a gollwyd i gasglu tystiolaeth fwy cytbwys.[129]

**144.** Pan gafodd ei herio, amddiffynnodd Ysgrifennydd y Cabinet broses ymgynghori 2023, gan ddweud:

> *"But there was that key and clear question on views and seeking evidence on a ban, and the views were quite compelling, and 65 per cent is not to be sniffed at in terms of responses, but also the evidence being put forward."*[130]

## Ein barn ni

**145.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Llywodraeth Cymru wedi dibynnu'n helaeth ar y ffigurau pennawd o ymgynghoriad 2023 i awgrymu bod lefel gref o gefnogaeth gyhoeddus yng Nghymru i wahardd rasio milgwn. Nodwn nad oedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynnig penodol hwn, a'i fod yn dibynnu ar fethodoleg hunan-ddewis, sydd yn ei hanfod yn agored i ragfarn ac nad yw'n darparu mesur cynrychioliadol o farn y cyhoedd. Mae'r dull hwn, ynghyd â nifer yr ymatebion dyblyg, yn tanseilio cadernid y sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau deddfwriaethol. Yn ein barn ni, dylai rhagor o ymgynghori ystyrlon ac wedi ei dargedu fod wedi digwydd ochr yn ochr â datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn cyn gwneud penderfyniad i ddeddfu.

**146.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod ei waith ymgysylltu ei hun yn cario pwysau cyfartal ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2023. Yn wahanol i ymarfer Llywodraeth Cymru, cynlluniwyd arolwg y Pwyllgor yn benodol i archwilio barn ar

---

[128] Pob un, Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 14 Hydref 2025, tudalen 1
[129] PGRWB 02 – Cynghrair Cefn Gwlad Cymru, tudalen 5
[130] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 58

y Bil a materion lles cysylltiedig. Mabwysiadodd ddull cymysg, gan gyfuno cwestiynau strwythuredig ag ymatebion testun agored i gofnodi rhesymu a phrofiadau byw. Er nad oedd bwriad iddo fod yn gynrychioliadol yn ystadegol, cyflawnodd ymgysylltiad y Pwyllgor gyfranogiad eang ar draws holl awdurdodau lleol Cymru a grwpiau oedran oedolion, gan gynhyrchu 815 o ymatebion, a datgelu rhaniad bron yn gyfartal mewn barn. Mae hyn yn cymharu â 1031 o ymatebion i gwestiwn ymgynghori Llywodraeth Cymru ar waharddiad, gyda 291 ohonynt yn ymatebion ymgyrchu yn adlewyrchu'r hyn a gyflwynwyd gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon.[131] Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at gymhlethdod a naws barn y cyhoedd, gan gyferbynnu â'r ffigurau pennawd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cadarnhau ein barn bod ymgynghori trylwyr a thryloyw yn hanfodol cyn ceisio deddfu.

[131] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Tachwedd 2025

# 9. Yr effaith economaidd a diwylliannol

**147.** Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniadau economaidd a chymdeithasol posibl gwahardd rasio milgwn yng Nghymru. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwaith ar y gweill i asesu effeithiau ar gyflogaeth a'r economi, gan ddatgan bod gan Gymru enw da am wneud y trawsnewidiadau hyn o ran ailhyfforddi gweithwyr.[132]

**148.** Mynegodd cynrychiolwyr y diwydiant bryder nad yw'r effeithiau hyn wedi eu harchwilio'n llawn. Dywedodd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio:

> *"The economic impacts of this Bill have not yet been sufficiently explored or worked through, despite the Valley Greyhound Stadium providing information to support this work."*[133]

**149.** Dywedodd Stadiwm Milgwn Valley wrthym ei fod wedi buddsoddi £2 filiwn mewn gwaith uwchraddio i ddod yn drac rheoleiddiedig.[134] Dywedodd y Glymblaid nad oedd yr honiad hwn yn cael ei gefnogi gan gyfrifon cyhoeddedig Stadiwm Milgwn Valley ar gyfer y cyfnod perthnasol, a oedd yn dangos cyfanswm o £167,681 yn unig wedi ei wario ar welliannau.[135]

**150.** Amcangyfrifodd SIS y gallai hawliau cyfryngau ddarparu amcangyfrif ceidwadol o £15 miliwn i Stadiwm Milgwn Valley dros bum mlynedd, gyda'r rhan fwyaf o hyn o fudd i'r gymuned leol. Adroddodd GBGB fod 85 o unigolion yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth gynnal rasys yn Stadiwm Milgwn Valley, gan gynnwys hyfforddwyr, gweithwyr llety cŵn, a staff lletygarwch, gan rybuddio y bydd y rhan fwyaf yn colli eu swyddi.[136]

**151.** Y tu hwnt i economeg, tynnodd GBGB sylw at y buddion diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol a ddaw yn sgil Stadiwm Milgwn Valley, a'i rôl

---

[132] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 6 Tachwedd 2025, paragraff 164
[133] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio – 15 Hydref 2025, tudalen 12
[134] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 257
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru – 7 Hydref 2025, tudalen 12
[136] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 372-373

hanesyddol mewn cymunedau gwledig.[137] Pwysleisiodd cynrychiolwyr Stadiwm Milgwn Valley ansicrwydd ynghylch cynlluniau ailhyfforddi:

> *"There has not been one word mentioned in the implementation group or outside of that on what that will be, how that will be funded, are their salaries going to be matched?"*[138]

**152.** Ychwanegodd SIS:

> *"… there has been no serious conversation about economic impact. It seems very much to be an afterthought for the millions of pounds that have already been invested…and what the compensatory and impact costs would be if racing was to be banned."*[139]

**153.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad yw Llywodraeth Cymru yn dal yn glir ynglŷn â nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi ar y trac mewn gwirionedd, yn hytrach na ffigur pennawd.[140] Er bod y Grŵp Gweithredu wedi gofyn i VGS am yr wybodaeth hon dro ar ôl tro, nid oedd wedi'i darparu. Nododd ysgrifennydd y Cabinet fod angen y lefel hon o fanylion manwl gan fod data Tŷ'r Cwmnïau yn dangos mai un gweithiwr sydd yn Stadiwm Milgwn Valley. O ganlyniad, nid oedd asesiad effaith mwy manwl na chynigion ar gyfer ailhyfforddi ac ailsgilio wedi eu datblygu eto.

**154.** Wedi hynny, hysbysodd VGS y Pwyllgor nad oedd y Grŵp Gweithredu wedi rhoi cyfle ffurfiol iddo ddarparu tystiolaeth ar effeithiau economaidd a chymdeithasol gwaharddiad arfaethedig tan 7 Tachwedd 2025, sef un diwrnod ar ôl i'r Ysgrifennydd Cabinet roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Pan gafodd gais ysgrifenedig, cadarnhaodd VGS ei fod wedi ymateb yn llawn erbyn hyn.[141]

## Ein barn ni

**155.** Mae'r Pwyllgor yn nodi rhywfaint o anghyfartalwch rhwng yr effeithiau economaidd a aseswyd gan Lywodraeth Cymru a'r rhai a honnwyd gan y

[137] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr– 9 Hydref 2025, tudalen 13
[138] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 383
[139] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Hydref 2025, paragraff 394
[140] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 6 Tachwedd 2025, paragraff 154
[141] Tystiolaeth ysgrifenedig: Stadiwm Milgwn Valley – 2 Rhagfyr 2025

diwydiant. Rydym yn gresynu na wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal asesiad cadarn a manwl cyn penderfynu deddfu, sy'n gwneud gwir raddfa'r effaith yn ansicr. Heb ddata manwl, gan gynnwys ffigurau cyflogaeth wedi eu gwirio a gwybodaeth ariannol, nid yw'n bosibl cynhyrchu asesiad effaith gwybodus. Er enghraifft, ni ellir gwerthuso'r refeniw amcangyfrifedig o £15 miliwn yn y dyfodol yn ystyrlon heb ddeall dibyniaethau economaidd lleol, fel yr effaith ar gymunedau yng Nghaerffili.

**156.** Er nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y bydd angen cronfa pontio eang, mae angen i Lywodraeth Cymru gryfhau ei dadansoddiad economaidd o oblygiadau'r Bil gan ei bod yn debygol y bydd angen ystyried cymorth wedi ei dargedu ar gyfer gweithwyr yr effeithir arnynt er mwyn lliniaru caledi.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad cynhwysfawr o oblygiadau economaidd a chymdeithasol y Bil cyn iddo ddod i rym.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu anghenion y gweithwyr yr effeithir arnynt yn llawn o ganlyniad i'r Bil ac yn rhoi cymorth wedi ei dargedu ar waith i liniaru caledi cyn iddo ddod i rym.

**157.** Mae dadleuon diwylliannol dros gadw rasio milgwn yn dod yn llai arwyddocaol yng nghyd-destun dirywiad hirdymor y gamp, ond mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd monitro ac adrodd ar effeithiau diwylliannol fel rhan o'r broses weithredu.

# 10. Gweithredu

**158.** Bydd y Bil yn cael ei ddwyn i rym mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru dim cynharach nag 1 Ebrill 2027, a dim hwyrach nag 1 Ebrill 2030, gyda'r bwriad o roi digon o amser i reoli'r effeithiau ar y diwydiant, cymunedau lleol, ac elusennau lles anifeiliaid.

**159.** Sefydlwyd Grŵp Gweithredu ar 11 Gorffennaf 2025 i oruchwylio'r newid tuag at wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Ei rôl yw rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol i Weinidogion Cymru, gan sicrhau bod lles milgwn sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r diwydiant yn cael ei ddiogelu a bod yr effeithiau ar gymunedau lleol a'r economi yn cael eu rheoli'n effeithiol. Gorchwyl y grŵp yw nodi'r arferion gorau ar gyfer y cyfnod pontio, gan ddefnyddio enghreifftiau o ddulliau awdurdodaethau eraill, a chynnig atebion ymarferol i liniaru canlyniadau cymdeithasol ac economaidd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Stadiwm Milgwn Valley, sefydliadau iechyd a lles anifeiliaid, sectorau cymdeithasol a chymunedol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a rhanddeiliaid yn y cyfryngau fel SIS.

**160.** Archwiliodd y Pwyllgor y cyfnod gweithredu arfaethedig a'i oblygiadau ar gyfer lles anifeiliaid a'r diwydiant rasio.

**161.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Let's not do it in haste, which might have negative consequences, either for the greyhounds, or alternatively for the people who are working there."*[142]

**162.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n cymryd cyngor gan y Grŵp Gweithredu ar y cyfnod pontio, yn enwedig ar y capasiti ailgartrefu, a mynegodd hyder y gallai elusennau ehangu'r capasiti ailgartrefu yn ystod y cyfnod pontio. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mai ei fwriad fyddai symud i wahardd rasio milgwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.[143]

[142] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 100
[143] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 100

**163.** Dadleuodd cynrychiolwyr y diwydiant dros amserlen hirach, gan rybuddio am amharu ar ailgartrefu a bywoliaethau. Dywedodd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio y byddai gwaharddiad graddol yn debyg i gael gwaharddiad ar unwaith.[144]

**164.** Roedd y rhai a oedd o blaid y gwaharddiad o blaid cyfnod byrrach, yn aml tua 12 mis, gan nodi pryderon lles. Rhybuddiodd Achub Milgwn Cymru:

> *"An implementation date of 2030 could result in an additional 480 greyhounds, many of which will have suffered significant injuries, needing to be rehomed."*[145]

**165.** Awgrymodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon fod tystiolaeth o Seland Newydd yn dangos bod anafiadau wedi 'codi'n sydyn' cyn ei waharddiad, tra bod academyddion wedi cynnig mesurau fel rhoi terfyn ar gofrestriadau newydd.[146] Cadarnhaodd Battersea Dogs & Cats Home fod capasiti i ailgartrefu pob milgi sy'n rasio ar hyn o bryd drwy Bartneriaeth Ailgartrefu Milgwn Cymru, a sefydlwyd yn dilyn cyhoeddi gwaharddiad, i sicrhau capasiti.[147]

## Ein barn ni

**166.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cyfnod cyflwyno arfaethedig yn synhwyrol, gan fod angen i'r penderfyniad i ddod â'r Bil i rym fod yn gyfan gwbl seiliedig ar wybodaeth. Mae'n rhoi modd i'r gwaith paratoi angenrheidiol ddigwydd ac yn rhoi amser i reoli'r effeithiau ar y diwydiant, cymunedau lleol ac elusennau lles anifeiliaid. Rydym wedi cael ein calonogi gan gadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y Bil yn cael ei ddwyn i rym cyn gynted â phosibl o fewn yr amserlen benodedig.

**167.** Mae sefydlu'r Grŵp Gweithredu yn gam cadarnhaol, ac rydym yn croesawu ei rôl wrth gynghori ar gapasiti ailgartrefu, effeithiau economaidd, ac arfer gorau ar gyfer pontio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi na fyddai cyfnod paratoi mor hir wedi bod yn angenrheidiol o bosibl i'r Grŵp Gweithredu wneud ei waith pe bai mwy o waith paratoi wedi ei wneud cyn gwneud y penderfyniad i ddeddfu.

[144] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio – 15 Hydref 2025, tudalen 10
[145] Tystiolaeth ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru – 7 Hydref 2025, tudalen 1
[146] Er enghraifft, PGRWB 21 - Angela Shearing, tudalen 2
[147] PGRWB 28 – Battersea Dogs & Cats Home, tudalen 3

# 11. Diffiniad o "filgi"

**168.** Ystyriodd y Pwyllgor a ddylai'r Bil ddiffinio "milgi" a goblygiadau gadael hyn heb ei ddiffinio.

**169.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Kennel Club, wedi dangos mesur go dda o dderbyn beth yw milgi a'r hyn nad ydyw.[148] Cydnabu swyddog o Lywodraeth Cymru fod bridiau eraill fel cŵn potsiwr (lurchers) a milgwn bach (whippets) yn rasio, ond dywedodd:

> *"... we don't have the evidence or strength of feeling, through consultation stakeholders, that that happens a lot in Wales, or leads to a high number of injuries and deaths."*[149]

**170.** Dadleuodd rhai tystion dros ddiffiniad ehangach i atal bylchau yn y gyfraith. Awgrymodd yr Athro Andrew Knight gynnwys cŵn hela 'sighthounds', a chroesfridiau posibl â'r cŵn hynny.[150] Dywedodd Dr Rebekah Humphreys y byddai diffiniad ehangach yn atal y diwydiant rhag bridio croesfridiau nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n dechnegol fel milgwn ond sy'n dal i rannu nodweddion arwyddocaol.[151]

**171.** Nododd y Groes Las ei bod yn gyfforddus â'r geiriad presennol. Nododd GBGB nad oes dim yn y Bil yn atal croesfridiau na bridiau eraill rhag cael eu rasio, tra bod SIS wedi gwneud y sylw mai milgwn fyddai'r unig ffurf fasnachol hyfyw o gyfle betio, er iddynt rybuddio am ganlyniadau anfwriadol posibl ar gyfer cwrso a gweithgareddau anghyfreithlon.[152]

## Ein barn ni

**172.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno nad oes angen diffiniad pellach o'r term "milgi" yn y Bil. Mae adborth gan randdeiliaid yn dangos dealltwriaeth eang a chyson o beth yw milgi, ac nid

[148] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 146
[149] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 149
[150] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 61
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Rebekah Humphreys - 3 Hydref 2025, tudalen 3
[152] Y ddau Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 360

oes digon o dystiolaeth i awgrymu bod rasio bridiau neu groesfridiau eraill yn gyffredin yng Nghymru, nac yn debygol o fod yn gyffredin, nac yn peri pryderon sylweddol o ran lles.

**173.** Er ein bod ni'n cydnabod dadleuon dros ddiffiniad ehangach er mwyn osgoi bylchau posibl, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod hyn yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Gallai ehangu'r diffiniad gyflwyno cymhlethdod a chanlyniadau anfwriadol heb dystiolaeth glir o angen. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r dull presennol, sy'n darparu eglurder ac yn cyd-fynd â bwriad polisi'r Bil.

# 12. Diffiniad o "rasio milgwn"

**174.** Ystyriodd y Pwyllgor a yw diffiniad y Bil o "rasio milgwn" yn ddigon clir ac a ddylai ymestyn i draciau syth.

**175.** Mae'r Bil yn diffinio rasio milgwn fel a ganlyn:

> *"… gosod milgwn i redeg o amgylch trac ar drywydd atyniad sy'n cael ei reoli'n fecanyddol, ac mae'n cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac."*

**176.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r gwaharddiad yn berthnasol i draciau syth, gan fod anafiadau a marwolaethau yn gyffredin ar draciau crwm.[153] Pwysleisiodd swyddog o Lywodraeth Cymru yr angen i osgoi canlyniadau anfwriadol terminoleg a allai gyfyngu ar weithgareddau anffurfiol fel rasys hwyl mewn ffeiriau amaethyddol.[154]

**177.** Cefnogodd Dr Rebekah Humphreys y diffiniad, gan ddweud ei fod yn rhoi cywirdeb i fwriad y polisi.[155] Dadleuodd yr Athro Andrew Knight y byddai traciau syth yn cael effaith fuddiol sylweddol, ond na fyddent yn dileu pryderon lles, gan awgrymu geiriad fel 'o gwmpas neu ar hyd trac'.[156] Nododd y Groes Las nad oedd tystiolaeth ar lwybrau syth ond dywedodd y byddai'n croesawu eu cynnwys.[157]

**178.** Rhybuddiodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon fod diffyg diffiniad clir yn creu'r potensial ar gyfer bylchau, gan gynnwys traciau syth, ac amlygodd ffactorau risg eraill fel y llith, y blwch cychwyn, ac arwyneb y trac.[158] Dywedodd GBGB fod traciau syth yn cael eu trafod yn ei strategaeth lles, ond dadleuodd na allai'r rhan fwyaf o leoliadau'r Deyrnas Unedig eu darparu. Awgrymodd GBGB

[153] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 157
[154] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 160
[155] Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Rebekah Humphreys - 3 Hydref 2025, tudalen 3
[156] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 68-70
[157] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 75
[158] PGRWB 29 - Y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon, tudalen 3

hefyd fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn anafiadau yn Awstralia ar draciau syth.[159]

## Ein barn ni

**179.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y diffiniad o "rasio milgwn" a ddarperir yn y Bil yn ddigon clir ac yn cyd-fynd â bwriad y polisi. Rydym yn cytuno na ddylai'r diffiniad ymestyn i draciau syth. Nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn dangos achos lles cymhellol dros eu cynnwys, ac nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod traciau syth yn gynnig hyfyw yn fasnachol ar gyfer y diwydiant gamblo.

[159] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 261

# 13. Canlyniadau anfwriadol

**180.** Ystyriodd y Pwyllgor a allai'r gwaharddiad arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys rasio cŵn y tu allan i Gymru a gweithgarwch anghyfreithlon, heb ei reoleiddio.

## Rasio cŵn dros y ffin

**181.** Nid yw'r Bil yn gwahardd bridio, cadw cŵn mewn llety cŵn, na hyfforddi milgwn (ac eithrio fel y nodir yn y diffiniad o "rasio milgwn"), sy'n golygu y gellid cadw cŵn yng Nghymru o hyd ond eu bod yn cystadlu mewn mannau eraill. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y risg hon, gan nodi bod cŵn eisoes yn cael eu hyfforddi yng Nghymru a'u rasio yn Lloegr, a dywedodd ei fod yn ymwybodol iawn o'r posibilrwydd o gynnydd mewn teithio.160 Pwysleisiodd fod rheoliadau cludo anifeiliaid presennol yn berthnasol a nododd y gallai gwaith trwyddedu a rheoleiddio ehangach fynd i'r afael â materion cysylltiedig.[161]

**182.** Cefnogodd RSPCA Cymru gwmpas y gwaharddiad ond pwysleisiodd yr angen i ddiogelu agweddau eraill ar les cŵn o dan Ddeddf 2006.[162] Nododd RSPCA Cymru, unwaith y bydd y bwriad i gau'r trac rasio yn Swindon yn digwydd, y bydd y trac agosaf dros dair awr i ffwrdd, gan wneud rasio yn Lloegr yn llai ymarferol.[163]

**183.** Rhybuddiodd cynrychiolwyr lles anifeiliaid a GBGB y gallai'r gwaharddiad danseilio amcanion lles. Dywedodd y Kennel Club fod potensial i'r gwaharddiad arwain at ganlyniadau negyddol i'r cŵn sy'n rasio yng Nghymru ar hyn o bryd, a chroesawodd rôl y Grŵp Gweithredu wrth fynd i'r afael â'r risgiau hyn.[164] Rhybuddiodd GREY2K y gallai rasio trawsffiniol danseilio amcanion lles y Bil.[165]

**184.** Dywedodd SIS y bydd y cŵn hynny sy'n rasio yn Stadiwm Milgwn Valley ar hyn o bryd yn mynd i rasio ar draws y ffin, a dadleuodd y byddai cyfyngu ar hyfforddi naill ai'n gorfodi teithio hirach, gan greu risgiau lles, neu'n lleihau

[160] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 108-109
[161] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 108-109
[162] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 224
[163] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 15 Hydref 2025, paragraff 110
[164] PGRWB 20 - The Kennel Club, tudalen 2
[165] PGRWB 03 - GREY2K USA Worldwide, tudalen 4

cyfleoedd hyfforddi, gan gynyddu'r risg o anafiadau.[166] Cytunodd y Gynghrair Cefn Gwlad Cymru â'r farn hon, a dywedodd:

> *"The ban will do little beyond increasing the distances greyhounds will have to travel to train and compete."*[167]

**185.** Rhybuddiodd GBGB hefyd y gallai'r gwaharddiad 'orlethu' canolfannau ailgartrefu.[168]

## Gyrru rasio'n 'danddaearol'

**186.** Rhybuddiodd GBGB mai'r risg gyda gwaharddiad yw y byddai rasys milgwn yn digwydd yn anghyfreithlon, allan o olwg y cyhoedd heb unrhyw reoleiddio, gan dynnu cymariaethau â rasio ysgyfarnogod.[169] Adleisiwyd y pryder hwn gan Gymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio a'r Cyngor Betio a Hapchwarae.

**187.** Roedd elusennau lles anifeiliaid yn anghytuno â'r risg hon. Dywedodd y Groes Las:

> *"There is little evidence to support the theory that greyhound racing will move 'underground' and is not, in our opinion, a valid reason to not take steps to protect the welfare of racing greyhounds in Wales."*[170]

**188.** Ychwanegodd y Glymblaid y byddai rasio anghyfreithlon yn "amlwg iawn" o ystyried y seilwaith sydd ei angen, a nododd fod y diwydiant yn dibynnu ar refeniw ffrydio, na fyddai'n bosibl ei efelychu'n gudd.[171] Cefnogodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y farn hon.[172]

---

[166] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 375
[167] PGRWB 02 – Cynghrair Cefn Gwlad Cymru, tudalen 2
[168] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 11
[169] Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr – 9 Hydref 2025, tudalen 2
[170] Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Groes Las – 6 Medi 2025, tudalen 4
[171] PGRWB 11 – Clymblaid 'Cut the Chase', tudalen 5
[172] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 576

**189.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r farn hon, a dywedodd y bydd yn anodd iawn, iawn symud i ffurf danddaearol o rasio milgwn.[173]

## Ein barn ni

**190.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod risg bosibl o ddadleoli, gyda milgwn yn cael eu rasio y tu allan i Gymru yn dilyn y gwaharddiad. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch lles oherwydd pellteroedd teithio cynyddol, ond nodwn fod deddfwriaeth bresennol yn darparu mesurau diogelu. Mae tystiolaeth ynghylch y tebygolrwydd y bydd rasio yn symud ar draws y ffin yn gymysg. Er bod rhai rhanddeiliaid yn rhagweld mwy o deithio, rydym o'r farn bod y risg hon yn gyfyngedig o ystyried yr heriau ymarferol a'r pellteroedd dan sylw. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen mesurau deddfwriaethol ychwanegol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y posibilrwydd y bydd gweithgarwch rasio yn cael ei ddadleoli ar draws ffiniau, ac yn ymgysylltu â Thrwyddedu Anifeiliaid Cymru yn ôl yr angen i asesu a lliniaru effeithiau posibl ar les.

**191.** Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai rasio milgwn yn cael ei yrru'n danddaearol. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn risg gredadwy. Mae rasio milgwn yn ddibynnol iawn ar refeniw gamblo a seilwaith ffrydio, gan ei gwneud hi'n anodd gweld sut byddai'n hyfyw yn fasnachol fel gweithgaredd anghyfreithlon. Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet a sefydliadau lles y byddai gofynion logistaidd rasio hefyd yn gwneud gweithrediadau cudd yn anymarferol iawn.

[173] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 112

# 14. Y troseddau

**192.** Ystyriodd y Pwyllgor a yw cwmpas y troseddau o dan y Bil yn ddigonol i atal rasio milgwn yn anghyfreithlon.

**193.** Mae Bil yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio (neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio) ar gyfer rasio milgwn. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fod yn rhan o drefnu rasio milgwn yng Nghymru.

**194.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd y ffocws ar drefnwyr digwyddiad yn annhebyg i'r dull a ddefnyddiwyd mewn deddfwriaeth arall sy'n ymwneud ag ymgynnull yn anghyfreithlon, ac fe'i cynlluniwyd i fod wedi ei dargedu'n eithaf manwl, a hefyd yn deg, yn gymesur ac yn orfodadwy ar gyfer awdurdodau gorfodi.[174]

**195.** Galwodd nifer o randdeiliaid am ehangu'r drosedd. Dadleuodd Rasio Milgwn Cymru a'r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon y dylid cynnwys hyfforddwyr a pherchnogion. Awgrymodd RSPCA Cymru a Battersea Dogs & Cats Home ymestyn atebolrwydd i fynychwyr, gan nodi:

> *"It is hard to argue after all that it should be legal to attend or gamble on an activity that is illegal to carry out in Wales."*[175]

**196.** Tynnodd y Glymblaid sylw at y ffaith bod deddfwriaeth hela ysgyfarnogod yn cynnwys y rhai sy'n bresennol, tra dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> *"Expanding the scope to include participation would help prevent circumvention or unintended loopholes and ensure the legislation is enforceable if illegal activities arose because of the ban."*[176]

[174] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 167
[175] PGRWB 28 – Battersea Dogs & Cats Home , tudalen 2
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – 6 Hydref 2025, tudalen 2

**197.** Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd y pryder a godwyd gan swyddogion gorfodi ynghylch canfod pwy yw trefnwyr digwyddiadau anffurfiol.[177] Cefnogwyd y farn hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.[178]

**198.** Cynigiodd Trwyddedu Anifeiliaid Cymru gynnwys y rhai sy'n cyllido rasys, tra bod y Gynghrair Cefn Gwlad Cymru wedi codi pryderon ynghylch eglurder yng ngeiriad y Bil.[179] Fodd bynnag, roedd GREY2K o'r farn bod y drosedd wedi ei diffinio'n glir.[180]

## Ein barn ni

**199.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod cwmpas y troseddau a nodir yn y Bil yn bodloni'r amcan polisi mewn ffordd sy'n gymesur ac y gellir ei gorfodi. Mae targedu trefnwyr a gweithredwyr lleoliadau yn taro cydbwysedd priodol rhwng ataliaeth ac ymarferoldeb i awdurdodau gorfodi.

**200.** Er ein bod ni'n cydnabod awgrymiadau rhanddeiliaid i ehangu'r drosedd i gynnwys hyfforddwyr, perchnogion, y rhai sy'n bresennol, neu'r rhai sy'n cyllido rasys, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod hyn yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Gallai ehangu atebolrwydd gyflwyno cymhlethdod a chanlyniadau anfwriadol, yn enwedig ar gyfer ymwneud anffurfiol neu ddamweiniol, heb dystiolaeth glir o angen.

**201.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet fod y dull presennol yn gyson â deddfwriaeth arall sy'n mynd i'r afael ag ymgynnull yn anghyfreithlon, sy'n darparu eglurder ar gyfer gorfodi. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd y darpariaethau hyn ac ystyried mesurau pellach dim ond os daw tystiolaeth i'r amlwg o fylchau neu heriau gorfodi.

[177] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – 6 Hydref 2025, tudalen 2
[178] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025 paragraff 557
[179] PGRWB 02 – Cynghrair Cefn Gwlad Cymru, tudalen 2
[180] PGRWB 03 - GREY2K USA Worldwide, tudalen 2

# 15. Y gosb

**202.** Ystyriodd y Pwyllgor a yw'r darpariaethau cosb arfaethedig yn gymesur ac yn effeithiol.

**203.** O dan y Bil, mae unigolyn sy'n euog o'r troseddau hyn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy, nad yw'r Bil yn rhoi terfyn uchaf arni.

**204.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r dull hwn yn rhoi'r cyfle mwyaf posibl i ynadon fod yn hyblyg o fewn dedfrydau.[181] Nododd fod deddfwriaeth debyg yn yr Alban yn cynnwys carchar am hyd at bum mlynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

**205.** Roedd y safbwyntiau ar y gosb arfaethedig yn gymysg. Croesawodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon ac RSPCA Cymru y gosb o ddirwyon diderfyn, er bod RSPCA Cymru wedi gofyn a ddylid ystyried dedfrydau o garchar hefyd. Pwysleisiodd Battersea Dogs & Cats Home yr angen am ganllawiau cadarn ar gymhwyso dirwyon diderfyn.[182]

**206.** Cynigiodd Trwyddedu Anifeiliaid Cymru gyflwyno cosbau penodedig, gan ddadlau bod y rhain wedi bod yn llwyddiannus mewn deddfwriaethau eraill fel mecanwaith gorfodi cymesur nad yw'n gorlwytho llysoedd, ac sy'n arwain at ganlyniadau lles gwell.[183]

## Ein barn ni

**207.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y ddarpariaeth ar gyfer dirwyon diderfyn ar euogfarn ddiannod yn gymesur ac yn darparu ataliad digonol i gyflawni amcanion polisi'r Bil. Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet bod y dull hwn yn cynnig hyblygrwydd i Ynadon ac yn cyd-fynd ag egwyddorion gorfodi a gymhwysir mewn deddfwriaeth debyg.

**208.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pwysleisio'r angen am ganllawiau cadarn ar gymhwyso dirwyon diderfyn er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ac i ymgysylltu â'r Cyngor Dedfrydu cyn i'r Bil ddod i rym i ddatblygu canllawiau dedfrydu clir.

[181] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 2 Hydref 2025, paragraff 169
[182] PGRWB 28 – Battersea Dogs & Cats Home, tudalen 2
[183] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 169

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Cyngor Dedfrydu cyn i'r Bil ddod i rym i ddatblygu canllawiau dedfrydu clir.

# 16. Gorfodi

**209.** Ystyriodd y Pwyllgor a yw'r pwerau gorfodi a gynigir o dan y Bil yn ddigonol ac yn gymesur.

**210.** Mae Atodlen 2 i'r Bil yn rhoi pwerau mynediad, archwilio, chwilio ac atafaelu i arolygwyr a benodir gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu Weinidogion Cymru, er nad oes ganddynt bŵer i atafaelu cŵn.

**211.** Cytunodd y rhan fwyaf fod y darpariaethau'n ymarferol. Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad Cymru a GREY2K eu bod nhw'n ddigonol. Disgrifiodd Dr Rebekah Humphreys nhw fel rhai ymarferol a chymesur.[184] Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o'r farn bod Atodlen 2 yn addas at y diben ond tynnodd sylw at heriau o ran mynd i mewn i anheddau.[185]

**212.** Galwodd rhai sefydliadau am fesurau cryfach. Dadleuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Trwyddedu Anifeiliaid Cymru dros bwerau i gael gwared ar anifeiliaid sy'n dioddef heb ddibynnu ar Ddeddf 2006, a ddisgrifiwyd ganddynt fel un sy'n anodd ei defnyddio, yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser. Cododd Battersea Dogs & Cats Home bryderon ynghylch y diffyg eglurder o ran baich y prawf a gofynion tystiolaeth, a phwysleisiodd yr angen am hyfforddiant.[186]

**213.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd canllawiau hefyd. Galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Trwyddedu Anifeiliaid Cymru am ganllawiau statudol, tra bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annog ymchwiliadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, cydweithio â'r Heddlu, a chyllid digonol ar gyfer hyfforddiant a chapasiti arolygwyr.[187] Argymhellodd gytundebau cenedlaethol i egluro rolau a chryfhau cydweithrediad rhyngasiantaethol.[188]

---

[184] Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Rebekah Humphreys – 3 Hydref 2025, tudalen 3
[185] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 556
[186] PGRWB 28 – Battersea Dogs & Cats Home, tudalen 2
[187] Er enghraifft, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 564
[188] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – 6 Hydref 2025, tudalen 3

**214.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod o'r farn y bydd cydymffurfiaeth yn uchel o ystyried gwelededd rasio milgwn, gan arwain at faich gorfodi lleiaf posibl.[189] Ategwyd y farn hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.[190]

## Ein barn ni

**215.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y pwerau gorfodi a nodir yn Atodlen 2 i'r Bil yn gymesur ac yn addas at y diben yn fras. Mae rhoi pwerau mynediad, archwilio, chwilio ac atafaelu i arolygwyr yn gyson â deddfwriaeth debyg, a dylai alluogi gorfodi effeithiol. Nodwn fod diffyg pŵer i atafaelu cŵn yn cael ei liniaru gan ddarpariaethau presennol o dan Ddeddf 2006, er bod rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith y gall y darpariaethau hyn fod yn gymhleth a'u bod yn gofyn am lawer o adnoddau.

**216.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â rhanddeiliaid y bydd canllawiau statudol yn hanfodol i sicrhau eglurder ynghylch rolau, gofynion tystiolaeth, a phrosesau gorfodi. Rydym hefyd yn cefnogi galwadau am ymchwiliadau sy'n seiliedig ar wybodaeth a chydweithio rhyngasiantaethol, gan gynnwys cytundebau rhwng awdurdodau lleol a'r Heddlu. Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd gorfodi effeithiol yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn cael adnoddau digonol.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyflwyno gwelliant i'r Bil i alluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol i arolygwyr mewn perthynas â gorfodi'r troseddau sydd yn y Bil.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cytundebau cenedlaethol i gynorthwyo ymchwiliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio rhwng asiantaethau gorfodi a'r Heddlu.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad manwl o gapasiti gorfodi, gan gynnwys anghenion hyfforddi, ac yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol fynediad at ddigon o gyllid a chymorth i weithredu'r ddeddfwriaeth.

[189] Llywodraeth Cymru: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol - 29 Medi 2025, tudalen 21
[190] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 23 Hydref 2025, paragraff 576

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **02 Hydref 2025** | **Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**James Morris, Hwylusydd y Bil,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jackie Price, Arweinydd y Tîm Milgwn,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Elizabeth Thomas, Cyfreithiwr,**<br>Llywodraeth Cymru |
| **15 Hydref 2025** | **Vanessa Waddon, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Hope Rescue<br>**James Fitch, Rheolwr Materion Cyhoeddus,**<br>Dogs Trust<br>**Chris Burghes, Prif Weithredwr,**<br>Blue Cross<br>**Dr Sibylle Kuonen,**<br>Achub Milgwn Cymru<br>**Billie-Jade Thomas, Uwch-reolwr Materion Cyhoeddus,**<br>RSPCA |
| **23 Hydref 2025** | **Dr Emily Blackwell, Uwch ddarlithydd mewn Ymddygiad ac Iechyd Lles Anifeiliaid,**<br>Prifysgol Bryste, a Chadeirydd grŵp gweithredu Llywodraeth Cymru<br>**Dr Ellie Wigham,**<br>Comisiwn Lles Anifeiliaid yr Alban<br>**Dr Rebekah Humphreys, Arbenigwr Moeseg Anifeiliaid,**<br>University of Wales Trinity Saint David<br>**Yr Athro Andrew Knight,**<br>Prifysgol Winchester |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Mark Bird, Prif Weithredwr,**<br>Bwrdd Milgwn Prydain Fawr<br>**Yr Athro Madeleine Campbell, Cyfarwyddwr Bwrdd,**<br>Bwrdd Milgwn Prydain Fawr<br>**Katie Bennison, Rheolwr Cyffredinol,**<br>Valley Greyhounds<br>**Simon Franklin, Cyfarwyddwr cwmni,**<br>Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio<br>**Richard Brankley, Pennaeth Gweithrediadau Milgwn,**<br>Sports Information Services<br>**Anna Jeffrey,**<br>Hyfforddwr milgwn<br>**Steve Howard,**<br>Hyfforddwr milgwn<br>**Mike Burton,**<br>Hyfforddwr milgwn<br>**Robert Hartshorn, Cyfarwyddwr Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>**Zoe Phillips, Rheolwr Prosiect,**<br>Trwyddedu Anifeiliaid Cymru |
| **06 Tachwedd 2025** | **Huw Irranca-Davies AS**, **Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jackie Price, Arweinydd y Tîm Milgwn,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Elizabeth Thomas, Cyfreithiwr,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod (*Saesneg yn unig) | Sefydliad |
|---|---|
| **PGRWB 01*** | Premier Greyhound Racing |
| **PGRWB 02*** | Y Gynghrair Cefn Gwlad Cymru |
| **PGRWB 03*** | GREY2K USA Worldwide |
| **PGRWB 04*** | Alison Littlejohn |
| **PGRWB 05*** | Les Penry |
| **PGRWB 06*** | Dianne Lewis |
| **PGRWB 07*** | Robert Williams |
| **PGRWB 08*** | Christine Evans |
| **PGRWB 09*** | Jane Hurley |
| **PGRWB 10*** | Dr Huw Jones Jenkins |
| **PGRWB 11*** | Cut the Chase Coalition |
| **PGRWB 12*** | Manuela Vogler |
| **PGRWB 13*** | Y Cyngor Betio a Hapchwarae |
| **PGRWB 14*** | Unigolyn |
| **PGRWB 15*** | Lorraine Czaja |
| **PGRWB 16*** | Ken Needham |
| **PGRWB 17*** | Ruth Joseph |
| **PGRWB 18*** | Alain Thomas |
| **PGRWB 19*** | Jenny Lloyd |
| **PGRWB 20*** | Y Kennel Club |
| **PGRWB 21*** | Angela Shearing |

| Cyfeirnod (*Saesneg yn unig) | Sefydliad |
|---|---|
| **PGRWB 22*** | Mike Doughty |
| **PGRWB 23*** | Melanie Jenkins |
| **PGRWB 24*** | Linda Leeves |
| **PGRWB 25*** | Sheila Andersen |
| **PGRWB 26*** | SPCA Seland Newydd |
| **PGRWB 27*** | Arena Racing Company |
| **PGRWB 28*** | Battersea Dogs & Cats Home |
| **PGRWB 29*** | League Against Cruel Sports |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Datganiad o fwriad polisi | 29 Medi 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Rebekah Humphreys | 3 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 6 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Blue Cross | 6 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: RSPCA Cymru | 6 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru | 7 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr | 9 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Yr Athro Andrew Knight | 13 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr | 14 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Caeau Rasio | 15 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Bwrdd Milgwn Prydain Fawr | 20 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: RSPCA Cymru | 22 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Greyhound Action Ireland | 27 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Clymblaid Cut the chase | 5 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 10 Tachwedd 2025 |

| Teitl | Dyddiad |
| --- | --- |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: UKAS | 10 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: UKAS | 18 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru | 18 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Achub Milgwn Cymru | 21 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru | 24 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Stadiwm Milgwn Valley | 2 Rhagfyr 2025 |